

Strategaeth Gymunedol Integredig i Sir Gaerfyrddin (2011-16)

Adroddiad Blynyddol 2015-16



Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, Braille, ar
dâp sain neu ddisg, cysylltwch â'r:

Tîm Polisi a Phartneriaethau
Neuadd y Sir
Caerfyrddin

01267 224202

www.ysirgaragarem.cymru

Rhagair ar ran Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin

Hwn yw'r pumed adroddiad blynyddol sy'n amlinellu'r cynnydd o ran cyflawni'r canlyniadau a ddisgrifir yn y Strategaeth Gymunedol Integredig i Sir Gaerfyrddin 2011-16. Mae'r adroddiad yn nodi enghreifftiau o'r prosiectau a'r datblygiadau sydd wedi digwydd yn ystod 2015-16 ac sydd wedi cyfrannu at gyflawni pum canlyniad datganedig y strategaeth:

- Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
- Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
- Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
- Mae cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
- Mae gan Sir Gaerfyrddin economi cryf a mwy llewyrchus.

Ers dod yn Gadeirydd ym mis Mai 2014, rydym yn parhau i wneud cynnydd da wrth ddatblygu gwaith a dull gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei deddfu ym mis Ebrill 2015 a bydd yn arwain at newidiadau sylweddol i waith partneriaeth gyda'r BGLI yn dod yn gorff statudol ym mis Mai 2016, ac yn cael ei adnabod fel 'Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus'. Mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfrifoldebau newydd i helpu i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y sir. Ceir pedwar aelod statudol - Cyngor Sir Gaerfyrddin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae nifer o gyfranogwyr eraill hefyd wedi cael eu gwahodd i ymuno â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys, Heddlu Dyfed-Powys, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Coleg Sir Gâr, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Nod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw cynnwys pobl a chymunedau wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a bydd yn dechrau drwy ymgymryd ag asesiad llesiant yn hwyrach yn 2016, gan helpu i lunio Cynllun Llesiant newydd erbyn mis Ebrill 2018 gan gyflawni'r Nodau Lles a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Rydym oll yn ymwybodol bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn parhau i wynebu sefyllfa ariannol heriol iawn. Fodd bynnag, er gwaethaf y cyfnod heriol hwn, mae'r ymrwymiad gan sefydliadau partner Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn gadarn – mae'r holl aelodau yn cydnabod bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol os ydym yn

Rydym yn parhau i weithredu cyfres o ffrydiau gwaith cydweithiol yn y sector cyhoeddus i helpu i ddod o hyd i ffyrdd o gydweithio er mwyn bod yn fwy cost effeithiol a gwella'r broses o gyflenwi gwasanaethau yn lleol. Ymhlith y ffrydiau gwaith mae Caffael, Ystadau a Llety a Rennir, Datblygu Staff a Thrafnidiaeth ac fe'u mynychir gan ystod o bartneriaid yn y sector cyhoeddus. Roedd y prif faterion a ystyriwyd yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf yn cynnwys:

- Mae'r pwyslais cynyddol hwn ar bartneriaid yn cydweithio yn rhywbeth a fydd yn parhau ac, wrth i ni ymateb i'r heriau a chanfod atebion gyda'n gilydd, caiff eich cymorth yn hyn o beth, fel y trigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ei groesawu.

Canlyniad 1: Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach

Mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi afiechyd drwy edrych ar fywyd yn ei grynsyth, o wella ein cartrefi a'n bwyd, i hamdden a chwaraeon, i adeiladu ar y gwasanaethau sy'n gallu rhoi annibyniaeth a ffordd newydd o fyw i ni, iechyd yw'r angen mwyaf sylfaenol ohonynt i gyd. Mae pobl iach yn creu cymunedau iach.

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn, ein nodau bydd:

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd
- Atal afiechyd a hybu byw'n iach a gweithgar
- Gwella iechyd a Lles Emosiynol a Meddyliol pawb yn y Sir
- Lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd
- Gwella'r gallu i gael iechyd a gofal cymdeithasol i bawb gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed
- Lleihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth?

Mae ein strwythur demograffig yn parhau i symud tuag at Bobl Hŷn, ar hyn o bryd mae traean o'n poblogaeth dros 65 mlwydd oed ac mae'r boblogaeth hŷn dros 65 mlwydd oed yn debygol o dyfu 18% erbyn 2020. Mae hyn yn arwyddocaol gan fod pobl yn y grŵp oedran hwn yn tueddu i ddatblygu bregusrwydd ac yn fwy tebygol o fod angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd hyn yn golygu pwysau a galw cynyddol ar ein hadnoddau. Wrth ystyried hyn law yn llaw ag anghenion gofal a chefnogaeth gynyddol unigolion o ganlyniad i gyflyrau mwy dwys a lleihad mewn cyllidebau, mae'n golygu bod heriau yn ein hwynebu wrth sicrhau bod pobl y Sir yn cael y cyfle gorau posib i fyw bywyd iachus. O ganlyniad, mae 2015/16 wedi bod yn flwyddyn lle gwnaethom ganolbwyntio ar atal afiechyd drwy fynd i'r afael â dewisiadau'r boblogaeth o ran eu ffordd o fyw, ac anelu at eu gwella er mwyn iddynt allu cadw'n weithgar ac yn iach.

Rydym wedi peilota dulliau newydd a blaengar o ran darparu gofal iechyd er mwyn ymdrechu i fod y gorau. Mae rhai o'r enghreifftiau hyn yn cynnwys cyflwyno 3 Gweithiwr Cymorth Eiddilwch ar Ward 1 Ysbyty Tywysog Philip. Mae'r tri unigolion hyn yn ychwanegol at nifer y staff arferol ar y ward gyda'r ffocws penodol ar gefnogi cleifion oedrannus ac eiddil i symud a dychwelyd adref yn fuan. Mae'r Gweithwyr Cymorth Eiddilwch yn cael hyfforddiant penodol ym maes Gofal Eiddilwch sy'n cynnwys symudedd, maeth a bwydo, y gallu i weithredu a deliriwm. Mae'r canlyniadau cynharaf o'r cleifion a gafodd gymorth gan y Gweithwyr Cymorth Eiddilwch yn dangos lleihad o 15% o ran cyfartaledd yr arhosiad. Mae hyn yn arwyddocaol gan fod Ward 1 yn ward geriatrig cymhleth. Y bwriad yw cyflwyno'r rhaglen hon i ddwy ward arall yn ystod 2016/17.

Yn ogystal, o fewn y gwasanaethau Iechyd Meddwl, mae rhaglen drawsnewid gyflawn ar waith i ddarparu gofal yn nes at gartrefi unigolion â phroblemau iechyd meddwl, mae ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i fuddsoddi'n sylweddol a datblygu gwasanaethau cymunedol o fewn y Sir ac ardal ehangach y Bwrdd Iechyd er mwyn cyflawni hyn.

Gyda'r newidiadau deddfwriaethol arwyddocaol diweddar, sy'n cynnwys cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol


(Cymru) 2015, mae yna ffocws cynyddol ar atal ac ymyrraeth gynnar. Gan drawsnewid y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu i hyrwyddo annibyniaeth pobl ac i roi llais cryfach iddynt i sicrhau bod eu dyfodol yn un cynaliadwy. Mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i fod yn flaengar yn Sir Gaerfyrddin gan ymdrechu i ddarparu gofal a chefnogaeth i'n poblogaeth mewn cyd-destun addas ac yn fwy pwysig fyth gan sicrhau eu bod yn aros yn annibynnol am gyn hired â phosib.

Wrth symud ymlaen i 2016/17, byddwn yn dechrau ymgorffori rhai o'r newidiadau deddfwriaethol a datblygu strwythurau newydd i gyflawni integreiddio a gweithio mewn partneriaeth. Bydd cyflwyno Grŵp Thematig Teuluoedd a Chymunedau Iach sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn datblygu nifer o flaenoriaethau amlasiantaeth o ran lechyd a Llesiant drwy gydol hyd y cwrs.

Bydd y prif ddangosyddion poblogaeth canlynol yn mesur perfformiad y Sir o fewn y canlyniad hwn ac mae diweddariad llawn ar gynnydd y dangosyddion hyn ar gael yn Adroddiad Blyneddol y Dangosyddion Poblogaeth ar gyfer 2015-16:

- Disgwyliad oes
- Canran yr ysmygwyr
- Nifer yr achosion o ordewdra
- Canran y boblogaeth sy'n gorfforol egnïol
- Cyfradd marwolaethau
- Cyfradd marwolaethau babanod
- Canran y babanod pwysau geni isel
- Nifer y rhai sy'n cael brechiadau (plentyndod a ffliw)
- Lefel digartrefedd
- Tai sy'n iach ac yn ddiogel

Byddwn yn edrych ar un o'r dangosyddion poblogaeth hyn – nifer yr achosion o ordewdra – yn fanylach.



Yn Sir Gaerfyrddin mae dros 60% o oedolion dros bwysau neu'n ordew, a 23% yn ordew, o gymharu â chyfartaledd Cymru sef 59% dros bwysau neu'n ordew a 23% yn ordew (Arolwg Iechyd Cymru, 2015). Mae rhaglen mesur plant 2014/15 yn nodi bod 30.7% o'r plant 4-5 oed yn y sir dros bwysau neu'n ordew a 13.6% yn ordew, o gymharu â chyfartaledd Cymru sef 26.2% dros bwysau neu'n ordew ac 11.6% yn ordew (Rhaglen Mesur Plant, 2014/15). O

edrych ar ddata'r rhaglen mesur plant dros y tair blynedd diwethaf mae'r gyfradd o bobl sydd dros bwysau neu'n ordew yn Sir Gaerfyrddin yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru.

Bwriedir gwella iechyd drwy ganolbwyntio ar hyrwyddo pwysau iach yn ystod beichiogrwydd a'r blynyddoedd cynnar, drwy gyflawni'r canlynol:

- Darparu Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) fel rhan o Wasanaeth Beichiogrwydd 'Baby Let's move' ar gyfer merched beichiog sydd â Mynegai Màs y Corff o fwy na 30, a ddarperir gan Wasanaethau Hamdden drwy gyllid gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
- Camau gweithredu (i'w cadarnhau) gyda swyddogion proffesiynol o ganlyniad i ymchwil a wnaed y llynedd i'w hargraffiadau o fod dros bwysau neu'n ordew.
- Hyrwyddo'r 10 Cam tuag at Bwysau Iach, sef negeseuon a seilir ar dystiolaeth o'r cyfnod cyn-beichiogi hyd 5 mlwydd oed.
- Cyllid Cyn-ysgol iach ychwanegol i gefnogi mentrau yn y lleoliadau hyn sy'n hyrwyddo pwysau iach.

Bwriedir gwella iechyd oedolion drwy:

- Barhau i gyflwyno a datblygu prosiect Eiriolwyr Ffordd o Fyw ym mhob un o'r tair ardal glwstwr yn Sir Gaerfyrddin.
- Parhau â'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a rhaglen Foodwise.
- Sicrhau bod grwpiau rheoli pwysau a arweinir gan ddeieteg ar gael fwyfwy.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2014/15?

1.1 Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd

- Parhawyd i ddarparu **y rhaglen blynyddoedd cynnar Dechrau'n Deg** i roi cymorth i deuluoedd â phlant rhwng 0-3 oed sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y wlad
- Cynyddodd yr ymweliadau â gwefan y **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** i 9,486 ac agorwyd y tudalennau 40,620 gwaith ac roedd 67% o'r rheini'n ymweliadau newydd.
- Darparwyd **rhaglen gyflawn yn ystod y gwyliau ysgol** a gweithdai i deuluoedd yn Oriel Myrddin
- Darparwyd y **cynllun gweithgarwch corfforol allgyrsiol 5x60** i 14 o ysgolion uwchradd a 2 ysgol arbennig, ac mae **100%** o'r ysgolion cynradd yn barod i gymryd rhan yng nghynllun gweithgarwch allgyrsiol [Aml-sgiliau'r Ddraig/Campau'r Ddraig](#), gan gysylltu â nifer o glybiau chwaraeon cymunedol. Mae 60% o'n disgyblion ysgol yn aelodau o glwb chwaraeon.
- Darparwyd [nofio am ddim](#) i blant o dan 16 ym mhob un o byllau nofio Cyngor Sir Caerfyrddin ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol, ac mae'r rhaglen yn gysylltiedig â Llwybr Dysgu Nofio Cymru, sef [Pasbort y Dŵr](#)
- Darparwyd **gwersi nofio i dros 4,100 o blant** yn ystod oriau ysgol a dros 2,000 o blant y tu allan i oriau ysgol.
- Anogwyd ysgolion i ymweld â **Chanolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn**, a daeth 83 o ysgolion cynradd i gymryd rhan i ddysgu am weithgareddau antur awyr agored a'r amgylchedd.
- Datblygwyd rhaglen hyfforddi i fydwragedd, '**Bwyta i 1: Iachus i 2**' mewn ymateb i'r cyfraddau gordewdra a adroddwyd yn Rhaglen Mesur Plant Cymru. Mae'r hyfforddiant

yn cynyddu gallu, sgiliau, gwybodaeth a hyder staff i gefnogi newid ymddygiad ymhlith merched beichiog a'u teuluoedd sy'n gwella eu hiechyd a'u lles.

- Llwyddwyd i ariannu, datblygu a chytuno ar fodel a manyleb darparu gwasanaethau gwahanol ar gyfer Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol (NERS) fel rhan o **Wasanaeth Beichiogrwydd - 'Baby Let's Move'**.
- Parhawyd i hyrwyddo'r **Cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron** ar draws Hywel Dda i sicrhau bod mamau yn teimlo'n gyfforddus yn bwydo ar y fron yn gyhoeddus.
- Parhawyd i ddarparu **hyfforddiant Ymyrraeth Fer Ysmygu** a synwryddion **Carbon Monocsid** i Fydwagedd i leihau nifer y mamau sy'n ysmygu.
- Cafodd y **Cynllun Gwên** sef rhaglen addysg iechyd y geg ei hymestyn, a'i chynnig i blant mewn lleoliadau sydd wedi'u targedu, sy'n cynnwys datblygu rhaglen brwsio dannedd mewn ysgolion.

1.2 Atal afiechyd a hybu byw'n iach a gweithgar

- Llwyddwyd i ddarparu **rhaglen 5x60** ym mhob un o'r 14 ysgol uwchradd a 2 ysgol arbennig yn Sir Gaerfyrddin.
- Cyflwynwyd rhaglen '**Amser Chwarae Actif**' i ysgolion cynradd, gydag 18 o becynnau offer yn cael eu cylchdroi ar fenthyg, a darparwyd hyfforddiant a chymorth i ddisgyblion hŷn i gynnal gweithgareddau chwarae strwythuredig.
- Cafodd apêl Chwaraeon a Hamdden ei hymestyn i gynulleidfaoedd iau mewn meithrinfeydd, llyfrgelloedd ac ati, drwy raglen arloesol '**Amser Stori Actif**', gan ddarparu offer, hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr gynnal y sesiynau.
- Cynyddwyd nifer y bobl ifanc sy'n cadw'n actif yn y Sir i 47% (cynnydd o 7% o gymharu â 2013).
- Gweithredwyd **rhaglen o welliannau o ran ysmygu yn ystod beichiogrwydd** sy'n cynnwys cyngor a hyfforddiant carbon monocsid a'r llwybr 'dewis peidio' ar gyfer merched beichiog sy'n ysmygu.
- Datblygwyd **Gwasanaeth Arbenigol ar gyfer Rhoi'r Gorau i Ysmygu ymhlith Pobl Ifanc** mewn partneriaeth â Thîm Iechyd Ieuenctid Iechyd Da. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl o dan 25 oed nad ydynt mewn addysg brif ffrwd.
- Datblygwyd **gwasanaeth gwell o ran rhoi'r gorau i ysmygu mewn ysbytai**, nid yn unig er mwyn targedu cleifion mewnol/allanol, ond hefyd merched beichiog sy'n ysmygu, y rheini sy'n aros am lawdriniaeth ddewisol a'r rheini â chyflyrau cronig.
- Lansiwyd **menter newydd i helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu sef 'IQUIT'**, gwasanaeth sy'n cynnig cymorth i helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu. Mae hefyd yn darparu cyngor ynghylch sut i ddelio â'r ysfa i ysmygu, newid arferion a chynnig therapi ailgyflenwi nicotin. Mae'r cynllun hwn yn ychwanegu at yr ystod o gymorth sydd eisoes ar gael.
- Datblygwyd **gwasanaeth rheoli pwysau arbenigol lefel 3** sy'n cael ei gynnal gan Deieteg ac sy'n defnyddio techneg newid ymddygiad a elwir yn cyfweld ysgogiadol a chwnsela sy'n canolbwyntio ar y claf er mwyn annog pobl i newid eu hymddygiad.

1.3 Gwella Iechyd a Lles Emosiynol a Meddyliol pawb yn y Sir

- Ymgwymerwyd â **hyfforddiant ymwybyddiaeth**, drwy'r Ganolfan Byd Gwaith, o ran helpu pobl â chyflyru iechyd meddwl ag awtistiaeth.
- Parhawyd i hyrwyddo **gwasanaeth arbenigol Mind i roi'r gorau i ysmygu** er mwyn sicrhau bod y rheini â salwch iechyd meddwl yn cael eu cefnogi i roi'r gorau i ysmygu.

- Darparwyd **hyfforddiant cynhwysfawr** i dros 750 o staff ar ddiogelu yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.
- Datblygwyd **canllaw arfer da rhanbarthol** rhwng diogelu oedolion a cham-drin domestig.
- Parhawyd i weithio er mwyn **sicrhau'r annibyniaeth fwyaf posibl** i unigolion â phroblemau iechyd meddwl neu anabledd dysgu. Mae nifer o unigolion, o fewn y gwasanaethau iechyd meddwl, wedi symud o ofal preswyl i fyw'n annibynnol.
- Llwyddwyd i sefydlu **menter ar y cyd rhwng Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl ac adran Barciau** yr Awdurdod Lleol i annog defnyddwyr gwasanaethau ag anableddau dysgu i gymryd rhan mewn gweithgareddau cynnal a chadw parciau a gwneud byrddau adar.
- Ehangwyd y cynllun **Rhannu Bywydau** (a enwyd yn Lleoli Oedolion yn gynt) a chynigiwyd 12 o leoliadau ychwanegol eleni. Mae'r cynllun yn cynnig mathau eraill o ofal yn hytrach na gofal traddodiadol.
- Cefnogwyd mwy o **gleientiaid â phroblemau iechyd meddwl** rhwng 18 a 64 oed i fyw yn y gymuned yn ystod y flwyddyn (o 80.13% i 85.24%).
- Parhawyd i ddatblygu'r **clinig cof cymunedol** yn Llandybie.
- Cwblhawyd ymarfer cwmpasu ar gyfer **cynllun comisiynu strategol** ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd ac Anableddau Dysgu.
- Lansiodd ymgyngoriad i **drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl** gyda gweledigaeth i ddatblygu gwasanaeth iechyd meddwl modern yn y gymuned sydd ar gael 24 awr y dydd heb yr un rhestr aros, a mwy o ofal yn cael ei ddarparu yn y cartref ac yn y gymuned gan y sector iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.
- Helaethwyd y prosiect **'Brysbennu Iechyd Meddwl'** sy'n atal pobl sy'n dioddef o drallod meddwl rhag cael eu cadw mewn celloedd gan yr heddlu. Mae'r prosiect hwn bellach wedi cael ei helaethu i gyfnod treialu am flwyddyn gyda nifer o sefydliadau gan gynnwys tri awdurdod lleol, Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, arbenigwyr iechyd meddwl, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a Phrifysgol De Cymru.
- **Adnewyddwyd ward 'Bryngolau'** yn Ysbyty Tywysog Philip, sy'n ward asesu iechyd meddwl oedolion hŷn, i wella llif y ward yn unol ag arfer gorau mewn wardiau sy'n cefnogi pobl â dementia.

1.4 Lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd

- Datblygu **Cynllun Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin** sy'n canolbwyntio ar 5 thema graidd: 1. Unigrwydd a theimlo'n ynysig, 2. Cyfleoedd cyflogaeth a sgiliau newydd, 3. Atal cwmpo, 4. Cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia, 5. Cymunedau sy'n gyfeillgar i oed.
- Darparwyd y **prosiect newydd C4W/PACE sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop**, gyda'r Ganolfan Byd Gwaith a Chymunedau yn Gyntaf, sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf.
- Cyflawnwyd **cynllun peilot o ran personoli** a oedd yn edrych ar gymorth arbenigol ar gyfer cwsmeriaid anabl neu'r rheini â chyflwr iechyd. Mae canfyddiadau'r cynllun peilot wedi cael eu cyflwyno i'r cynnig Hyder Mewn Pobl Anabl.
- Adolygwyd y **cymorth sydd ar gael eisoes i gwsmeriaid anabl** sydd wedi arwain at sicrhau adnodd ychwanegol ar gyfer Ymgynghorwyr Cyflogaeth i Bobl Anabl.
- Gwell **gwasanaethau ar gyfer menywod a phlant** yn Ysbyty Glangwili er mwyn sicrhau y darperir gwasanaeth diogel a chynaliadwy. Mae'r newidiadau yn cynnwys gofal

mamolaeth sy'n cael ei arwain gan ymgynghorydd a gofal pediatrig i gleifion mewnol yn Ysbyty Glangwili gyda gwasanaeth mamolaeth newydd sy'n cael ei arwain gan fydwagedd.

- Cyflwynwyd **Gwasanaeth Deintyddol** newydd gyda'r nod o ddarparu triniaeth ddeintyddol i unigolion nad ydynt yn cael gwasanaethau deintyddol yn gyson.
- Cyflwynwyd **Prosbectws Iechyd Newydd** ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, sy'n mynd i'r afael â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a ffyrdd o weithio gan edrych yn benodol ar gynhwysiant cymdeithasol ac anghenion iechyd gwledig.

1.5 Gwella cyflwr tai a lleihau digartrefedd

- Parhawyd i ehangu ein **Hasiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol** ac ychwanegwyd 12 eiddo ychwanegol yn ystod 2015/16
- Darparwyd **185 o Dai Fforddiadwy ychwanegol** gyda'n partneriaid a ni oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i **roi'r gorau i'n cynllun hawl i brynu** gan sicrhau ein bod yn cadw mwy o'n tai cyngor am rent isel i bobl sydd eu hangen.
- Sicrhawyd bod 100% o'n tai wedi rhagori ar y **Safon Ansawdd Tai Cymru** ar gyfer tenantiaid sydd wedi cytuno i gael y gwaith wedi'i gyflawni.
- Sicrhawyd bod yr holl **dai fforddiadwy newydd** a ariannwyd drwy gyfrwng y Grant Tai Cymdeithasol wedi bodloni lefel 3+ y Côt Cartrefi Cynaliadwy
- **Darparwyd cyngor am ynni** drwy gydol y flwyddyn i dros 40 o ddigwyddiadau mewn amrywiol ffyrdd gan gynnwys sioe deithiol, sgysiau â chlybiau a grwpiau, post-dafladau a chyfryngau cymdeithasol.
- Lleihawyd y nifer o **deuluoedd digartref** sy'n gorfod treulio amser mewn gwely a brecwast i ddau deulu ar gyfer 2015/16.
- Datblygwyd **Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy pum mlynedd** a fydd yn cyflwyno dros 1,000 yn rhagor o dai fforddiadwy o fewn y Sir.
- Adnewyddwyd **153 o dai gwag** er mwyn eu defnyddio eto yn ystod 2015/16. Mae hyn yn golygu, 153 o dai i deuluoedd sydd mawr eu hangen.
- Ymrwymwyd £300,000 i ddarparu **prosiectau amgylcheddol lleol** er mwyn gwella ardaloedd preswyl.
- Sefydlwyd adolygiad Gorchwyl a Gorffen i edrych ar y **eiddo gwag y sector preifat** er mwyn gwella'r gwasanaeth yn y dyfodol.

1.6 Gwella'r gallu i gael iechyd a gofal cymdeithasol i bawb gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed

- Lansiodd y **Gwasanaeth Trosglwyddo Gofal, Cyngor a Chyswllt** i weithredu wrth 'ddrws blaen' yr ysbyty er mwyn osgoi derbyn cleifion yn ddiangen i'r ysbyty, neu i'r rhai sydd wedi'u derbyn, sicrhau proses brydlon a diogel o'u rhyddhau i'w cartrefi neu leoliad priodol.
- Cyflwynwyd **3 Gweithwyr Cymorth Eiddilwch** yn Ward 1 Tywysog Philip er mwyn gweithio'n benodol gyda'r cleifion hynny a nodwyd yn rhai 'eiddil neu'n ansicr ar eu traed'. Mae'r data cychwynnol yn dangos bod cleifion sy'n rhan o'r prosiect hwn yn aros yn yr ysbyty am lai o amser.
- Ehangwyd y **Prosiect Gweithiwr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol** gan ddirprwyo'r tasgau o ran gofal clwyfau syml rhwng Nyrsys Ardal ac Uwch Weithwyr Gofal i gartrefi gofal ledled y Sir.

- Cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddatblygu **un pwynt mynediad ar gyfer holl Ddefnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl**.
- Llwyddwyd i hwyluso trosglwyddiad y **Gronfa Byw'n Annibynnol** i Grant Byw'n Annibynnol Cymru heb amharu ar y gwasanaeth. Mae 147 o unigolion ag anableddau dysgu yn derbyn Grant Byw'n Annibynnol Cymru gyda chyfanswm dyfarniad o £3.1 miliwn.
- Darparwyd dau gynllun newydd **Byw'n Annibynnol Gofal Ychwanegol**, sef Cartref Cynnes yn Nhre Ioan a Thŷ Dyffryn yn Rhydaman mewn partneriaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin, Tai Teulu a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
- Datblygwyd **gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu gofal eilaidd** gyda chysylltiadau â gofal sylfaenol i gefnogi'r rheini â chyflyrau cronig a'r rheini sy'n aros am lawdriniaeth ddewisol.
- Datblygwyd **'Gweledigaeth Sir Gaerfyrddin am Wasanaethau Cynaliadwy ar gyfer Pobl Hŷn am y Ddegawd Nesaf'**. Mae'r strategaeth hon yn tynnu sylw at yr heriau yr ydym yn eu hwynebu o ran y sefyllfa ddemograffig ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ac mae'n gosod cynllun ar gyfer darparu mwy o wasanaethau cynaliadwy dros y ddeng mlynedd nesaf.
- Datblygwyd **blaen tŷ ac uned mân anafiadau newydd gwerth £1.4 miliwn** yn Ysbyty'r Tywysog Philip a fydd yn sicrhau gwasanaeth brys a mân anafiadau modern a chynaliadwy o fewn y Sir. Mae'r Uned Mân Anafiadau newydd yn cael ei chynnal gan Feddygon Teulu ac Ymarferwyr Nyrsio Brys ac mae'n trin cleifion ag ystod o broblemau o anafiadau i'r cyhyrau a'r cymalau i losgiadau a sgaldiadau, mân anafiadau i'r pen, mân anafiadau i'r llygaid a llawer mwy.
- Sefydlwyd partneriaeth rhwng Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phrifysgol Aberystwyth i **ddatblygu ymatebion arloesol i anghenion iechyd a lles mewn lleoliadau gwledig**. Mae grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, gan gynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, yn parhau i ddatblygu'r fenter gyda phwyslais ar ymateb i anghenion iechyd / gofal cymdeithasol / hyfforddiant amlddisgyblaethol lleol.

1.7 Lleihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol

- Parhawyd i gefnogi swyddogaeth y Bartneriaeth a ddarparwyd gan y **Bwrdd Cynllunio Ardal** o ran camddefnyddio cyffuriau ac alcohol ac is-grwpiau a chynlluniau gweithredu'r ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, Atal, Triniaeth a Lleihau Niwed.
- Datblygwyd Strategaeth Ystadau Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol.
- Ym mis Ebrill 2015 dechreuodd Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, gynnig gwasanaeth alcohol a chyffuriau a chyfiawnder cymdeithasol newydd i oedolion. Mae'r Gwasanaeth bellach yn darparu un pwynt cyswllt am gyngor, triniaeth a chymorth i deuluoedd ar draws y tair sir o fewn ardal Hywel Dda. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio'n gynyddol ar ymyrraeth gynnar ac ymgysylltu. Mae'n darparu ymyraethau i leihau niwed ychwanegol megis Prawf Smotyn Gwaed Sych a darparu nodwyddau o safle sefydlog, yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer swyddogion proffesiynol ym maes cyffuriau ac alcohol.
- Parhawyd i ddatblygu **Gwasanaeth Cyswllt Alcohol** Bwrdd Iechyd Hywel Dda, gan ehangu'r ddarpariaeth o Ysbyty'r Tywysog Phillip a Glangwili i gynnwys Ysbyty Bronglais. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu perthynas waith rhagorol gyda Gwasanaeth Cyffuriau

ac Alcohol Dyfed ac mae'n dod i gysylltiad â nifer gynyddol o gleifion nad ydynt wedi ymwneud â'r gwasanaeth yn y gorffennol.

- Datblygwyd Protocol Gweithredu Safonol ar gyfer rhannu gwybodaeth am orddos marwol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gweithredu'r system hysbysu'r gronfa ddata newydd.
- Sicrhawyd ymateb cyson i'r broses o ddarparu **Addysg ar Gamddefnyddio Sylweddau** yn Sir Gaerfyrddin drwy wasanaeth cyffurfiau ac alcohol Choices i Bobl Ifanc a'r Tîm Ysgolion Iach.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod?

- Byddwn yn cynyddu nifer y rhai sy'n bresennol mewn cyfleoedd chwaraeon sy'n cael eu trefnu gan Swyddogion Chwaraeon a Hamdden o 5%.
- Byddwn yn sicrhau bod o leiaf 1,000 o unigolion yn cael eu cyfeirio drwy gyfrwng y Cynllun Bywiogi (NERS - Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol) yn ystod 2016/17.
- Parhau i gyflwyno Cynllun Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3 mewn Fferyllfeydd
- Gweithio mewn partneriaeth â gofal sylfaenol er mwyn targedu'r ardaloedd hynny lle mae ysmygu fwyaf cyffredin.
- Byddwn yn datblygu cynlluniau sy'n gysylltiedig â Phentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd Llanelli
- Gweithio gyda sectorau i hyrwyddo polisi di-fwg a lleoedd di-fwg, yn enwedig ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r isadran Dai i ddarparu hyfforddiant o ran rhoi Cyngor Cryno am atal a rhoi'r gorau i ysmygu.
- Byddwn yn moderneiddio ein gweithlu er mwyn cefnogi gweithredu'r dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r amcanion a amlinellwyd yn 'Gweledigaeth Sir Gaerfyrddin am Wasanaethau Cynaliadwy ar gyfer Pobl Hŷn am y Ddegawd Nesaf' a Chynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd.
- Byddwn yn ail ddylunio ein Gwasanaeth Llinell Gofal mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a datblygu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth cadarn ac un pwynt mynediad ar gyfer yr holl Wasanaethau Cymunedol i Oedolion.
- Byddwn yn codi proffil diogelu o fewn y cyngor a thu allan er mwyn sicrhau ein bod yn amddiffyn oedolion sydd mewn perygl.
- Byddwn yn gwella'r ystod o opsiynau llety sydd ar gael ar gyfer unigolion ag anghenion Iechyd Meddwl neu Anabledd Dysgu.
- Byddwn yn gwella ansawdd a chysondeb arferion rheoli gofal.
- Byddwn yn datblygu grwpiau rhanddeiliaid er mwyn gwella cyd-gynhyrchu ledled y Gwasanaethau Oedolion.
- Byddwn yn gosod diwylliant o reoli perfformiad ledled yr Adran Cymunedau yn y Cyngor, ac yn datblygu fframweithiau perfformiad integredig lle bynnag y bo'n bosibl.
- Byddwn yn sicrhau llwybr di-dor ar gyfer pobl ifanc wrth iddynt dyfu i fod yn oedolion.
- Byddwn yn cydweithio â phartneriaid i wella a moderneiddio gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

- Byddwn yn datblygu strategaeth gomisiynu ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.
- Byddwn yn datblygu cwmnïau cydweithredol/mentrau cymdeithasol sy'n cael eu datblygu gan ddinasyddion.
- Byddwn yn darparu cyfleoedd ystyrlon a llwybrau cynnydd ar gyfer unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau.
- Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau fel rhan o'r agenda atal afiechyd.
- Byddwn yn cynyddu nifer y tai fforddiadwy o 160 yn y flwyddyn gyntaf, yn unol â'r Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy Pum Mlynedd.
- Byddwn yn comisiynu ymchwil er mwyn gwella dealltwriaeth o'r angen am dai mewn ardaloedd gwledig.
- Byddwn yn darparu help ac arweiniad i blant sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn osgoi digartrefedd.
- Byddwn yn cwblhau'r Astudiaeth Effaith ar Iechyd, gan edrych ar iechyd tenantiaid, yn ystod cyfnod buddsoddi Safon Tai Sir Gaerfyrddin yn 2016.
- Byddwn yn cynyddu canran y tai yn y sector preifat y gellir eu hailfeddiannu yn ystod y flwyddyn, drwy gamau gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, a fu'n wag am fwy na 6 mis o 5.73% (153 o eiddo) i 6% (160 o eiddo).
- Byddwn yn parhau â Chynllun Gweithredu Eiddo Gwag y Sector Preifat 2016 a ddeilliodd o Adolygiad Gorchwyl a Gorffen Pwyllgor y Craffu-Cymunedau a'r argymhellion sydd wedi'u hanelu at wella'r gwasanaeth yn y dyfodol.
- Byddwn yn cynyddu nifer yr eiddo newydd ychwanegol sy'n cael eu rheoli gan ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol o 12 i 24.
- Byddwn yn datblygu model Gwasanaethau Atal Trydydd Sector Sir Gaerfyrddin er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn ddiogel, yn effeithiol ac yn amserol a bod gan unigolion sy'n agored i niwed yr holl gymorth y mae arnynt eu hangen wrth gael eu rhyddhau ac yn y dyddiau cynnar yn dilyn hyn.
- Byddwn yn buddsoddi yn ein Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig, gan sicrhau bod Oedolion Hŷn yn gallu aros yn annibynnol yn eu cartrefi.
- Byddwn yn datblygu Tîm Gofal Rhagweithiol Cymunedol a fydd yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, nyrsio cymunedol, Ffisiotherapyddion a Therapyddion Galwedigaethol a fydd yn cefnogi'r broses adolygu lleoliadau, cymorth i ryddhau o'r ysbyty'n gynnar a datblygu cynlluniau 'aros yn iach' er mwyn sicrhau annibyniaeth.
- Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau y cydymffurfir â'r Cynnig Gweithredol ledled yr holl feysydd gwasanaeth.

Astudiaeth Achos: Gwasanaeth Trosglwyddo Gofal, Cyngor a Chyswilt (TOCALS)

Mae **Trosglwyddo Gofal, Cyngor a Chyswilt (TOCALS)** yn darparu gwasanaeth cynghori a chydgyssylltu ar gyfer gweithwyr proffesiynol clinigol, nyrsio a gofal iechyd cymunedol yn Sir Gaerfyrddin sy'n gweithio er mwyn helpu cleifion mewnol eiddil a hŷn i ddychwelyd i'r gymuned lle maent yn byw. Cyflwynodd y gwasanaeth 'lwybr bregusrwydd' o fewn amgylchedd yr ysbyty sy'n canolbwyntio ar gynnal annibyniaeth a lles yr unigolyn yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty, gan gyfrannu at lai o dderbyniadau i'r ysbyty a gwell canlyniadau iechyd. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei gydnabod yn esiampl da gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i gydnabod mewn cynadleddau cenedlaethol.



Astudiaeth Achos:

Cafodd gŵr bonheddig a oedd yn byw'n annibynnol yn ei gartref ei hun a oedd yn derbyn pecyn gofal cymhleth yn y gymuned ei dderbyn i'r ysbyty ar benwythnos drwy gyfrwng y gwasanaeth tu allan i oriau'r Meddyg Teulu yn dioddef o boen yn y cymalau.

Yn dilyn cael ei dderbyn i'r ysbyty yn y gorffennol, roedd arhosiad hir yn yr ysbyty wedi effeithio ar ei allu i fyw'n annibynnol. O ganlyniad roedd yn ofynnol iddo gael cyfnod adsefydlu hir mewn ysbyty cymunedol, rhoddodd hyn y gallu iddo gyrraedd lefel o weithredu y byddai modd ei gefnogi drwy gynnig pecyn gofal i fyw'n annibynnol yn ei gartref ei hun.

Wrth gael ei dderbyn i'r ysbyty, roedd y claf yn eiddil iawn felly cafodd ei nyrso yn y gwely am 48 awr. Aeth TOCALs ati i asesu'r claf yn ystod ei drydydd diwrnod yn yr ysbyty, a thrwy gydgyssylltu â chydweithwyr amlddisgyblaeth yn y gymuned, sefydlwyd bod ei allu gweithredol yn debyg i'r hyn a fu cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty.

Roedd y clinigwr a'r staff nyrso ar y ward yn cydnabod, gan fod ei symptomau eraill wedi cael eu datrys, nid oedd angen gofal arno mwyach mewn gwely ysbyty aciwt. Sefydlwyd cytundeb ar y cyd rhwng TOCALs, staff y ward, y teulu, y Tîm Adnoddau Cymunedol a'r clinigwr y gallai gofal y gŵr bonheddig gael ei drosglwyddo'n ddiogel yn ôl at ofal sylfaenol a'r gwasanaethau cymunedol.

Canlyniad 2: Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn, ein nodau bydd:

- Darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu a datblygu gydol oes i bawb
- Gwella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb
- Cynorthwyo rhieni a theuluoedd i ddatblygu dysgu eu plant
- Datblygu cymdeithas gynhwysol
- Cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant, addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth?

Mae'r Adran wedi parhau i wella'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc, yn enwedig drwy weithio integredig effeithiol. Mae'r mwyafrif o'r camau gweithredu a gynlluniwyd wedi cael eu cyflawni, ac mae'r mesurau perfformiad hefyd wedi gwella bron ym mhob achos.

Bu 2015/16 yn flwyddyn lwyddiannus i Ysgolion Sir Gaerfyrddin:

- Roedd yr holl ddangosyddion ar gyfer y Cyfnodau Allweddol wedi dangos cynnydd o ran perfformiad
- Cawsom y canlyniad trothwy dangosydd cynhwysol lefel 2 uchaf erioed (5 TGAU A*-C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg), gan groesi'r trothwy mawr ei bri o 60%.
- Mae cyflawniad disgyblion Prydau Ysgol am Ddim o ran Dangosydd y Cyfnod Sylfaen a dangosydd cynhwysol lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 yn parhau i wella
- Mae ein safle yng Nghymru wedi gwella'n sylweddol o ran diwedd y Cyfnod Sylfaen a dangosyddion cynhwysol lefel 2 Cyfnod Allweddol 4.
- Roedd arolygiadau gan Estyn yn gadarnhaol iawn, gydag Ysgol Gynradd Brynman yr ysgol gyntaf yn Sir Gaerfyrddin i gael y dyfarniad 'Rhagorol' yn y dyfarniadau cyffredinol, y tri chwestiwn allweddol a phob un o'r deg dangosydd ansawdd.

Mae wedi bod yn bleser i weld y gwelliant parhaus o ran presenoldeb mewn ysgolion, gydag Ysgolion Cynradd yn gwella i 95.2% (5^{ed} yng Nghymru), ac Ysgolion Uwchradd yn cyrraedd 94.2% (9^{fed} yng Nghymru). Roedd y Gwasanaeth Lles Addysg wedi cefnogi dros 500 o bobl ifanc â phroblemau presenoldeb, gan arwain at welliant cyfartalog ar gyfer y bobl ifanc hynny o dros 4%.

Cafwyd ychydig o gynnydd (0.1%) yng nghanran disgyblion Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), er bod nifer gwirioneddol y disgyblion yn aros yr un peth â 2014 (69). Cafwyd canlyniad cadarnhaol iawn (2.8%) o ran cyfartaledd disgyblion Blwyddyn 13 yn dod yn NEET o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (6.1%).


Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi cael ei adolygu, wrth i 'Codi Caerau' sef siarter iaith Gymraeg yr ysgolion cynradd Cymraeg gael ei lansio, a'r siarteri iaith ar gyfer yr ysgolion uwchradd a Chymraeg ail iaith gael eu paratoi. Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gynyddol mewn ysgolion, er enghraifft mae % y dysgwyr sy'n astudio 5 TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu i 61.5%.

Mae ein hymagwedd tuag at Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi cynnwys darparu cymorth i ysgolion, yn enwedig o ran nodi adnabod anghenion yn gynnar, a rhannu arfer da ynghylch Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion. Bu'r broses o drosglwyddo'r ddarpariaeth addysg Anhwylder Sbectrwm Awtistig o Garreglwyd i Ganolfan y Cothi hefyd yn hwylus. Mae grŵp llywio Anhwylder Sbectrwm Awtistig amlasiantaeth wedi cael ei ailsefydlu a chafodd diwrnod rhanddeiliaid Anhwylder Sbectrwm Awtistig ei gynnal ar 1 Gorffennaf 2015.

Mae'r Rhaglen Moderneiddio Addysg wedi cael ei hadolygu. Yn ystod y flwyddyn mae prosiectau allweddol wedi cynnwys cwblhau Ysgol Bro Dinefwr ac Ysgol Gynradd Porth Tywyn, yn ogystal â nifer o estyniadau a gwaith adnewyddu helaeth. Bydd y prif ddangosyddion poblogaeth canlynol yn mesur perfformiad y Sir o fewn y Canlyniad hwn ac mae diweddariad llawn ar gynnydd y dangosyddion hyn ar gael yn Adroddiad Blynnyddol y Dangosyddion Poblogaeth ar gyfer 2015-16:

- Presenoldeb yn yr Ysgol – Cynradd ac Uwchradd
- Cyflawniadau arholiadau disgyblion 15 oed – Cyfnod Allweddol 4
- Disgyblion sy'n gadael heb gymwysterau
- Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) gydag o leiaf 1 TGAU neu GNVQ A*-G
- Oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau
- Gadael Addysg Uwch i gyflogaeth

Byddwn yn edrych ar un o'r dangosyddion poblogaeth hyn – cyflawniadau arholiadau – yn fanylach.



2015/16 58.2%

2014/15 56.1%



Mae % y plant 15/16 oed sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc 'craidd' (A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) wedi parhau i wella yn Sir Gaerfyrddin, o 56.1% yn 2014/15 (blwyddyn academaidd 13/14) i 58.2% yn 2015/16 (blwyddyn academaidd 14/15) ac unwaith eto mae'n parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 54.8%. Caiff ysgolion unigol eu herio mewn perthynas â disgwyliadau a'r targedau a gaiff eu gosod.

Byddwn yn parhau i gasglu targedau ysgolion unigol ar gyfer yr holl ddisgyblion TGAU er mwyn olrhain cynnydd, gydag ymyrraeth briodol. Mae'r pwyntiau cyfartalog a sgoriwyd gan Sir Gaerfyrddin hefyd wedi cynyddu o 579.8 yn 2014/15 i 580.3 yn 2015/16, mae hyn yn cynnwys **pob arholiad** ac nid y pynciau craidd yn unig sef Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

2.1 Darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu a datblygu gydol oes i bawb

- Llwyddwyd i gyflawni am yr ail flwyddyn yn olynol y canlyniadau arholiadau gorau erioed o ran TGAU, gan gyflawni 61.1% o gymharu â'r dangosydd cynhwysol allweddol Lefel 2 (o leiaf 5 TGAU gradd A* i C yn cynnwys Mathemateg ac iaith) gydag asesiadau athrawon ar bob cam allweddol arall yn gwella ac yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau eraill.
- Parhawyd â'n prosiectau datblygu mawr i ddatblygu ysgolion yn ein Rhaglen Moderneiddio Addysg, gan agor Ysgol Bro Dinefwr ac Ysgol Dyffryn Aman yn llwyddiannus.
- Cynllun Categorioreiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru:



- Mae dros dri chwarter, 77%, o'n hysgolion bellach mewn categori **Gwyrdd neu Felyn**, 8% un uwch na 2014-15.
- Mae cyfran yr **ysgolion Gwyrdd** yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu o 2% o gymharu â 2014-2015.

- Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella i 95.2% ac yn y 5^{ed} safle yng Nghymru, ac mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn 94.2% sef y 9^{fed} safle yng Nghymru.
- Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae'r holl ddisgyblion ysgol yn Sir Gaerfyrddin a adawodd addysg wedi llwyddo i gael cymhwyster allanol cymeradwy.
- Mae safonau rhifedd a llythrennedd wedi gwella yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, yn ôl yr hyn a gafodd ei fesur gan Asesiadau Athrawon. Cafwyd llwyddiant hefyd o ran dangosyddion Cyfnod Allweddol 4 a 5.
- Parhawyd i ddatblygu ein partneriaeth ag ERW o ran codi safonau ar draws ein hysgolion. Mae gweithgarwch o'r fath, yn bennaf drwy weithredu Ymweliadau Craidd ERW (cymorth a her), wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a deilliannau ein dysgwyr.
- Dechreuwyd ar weithredu argymhellion adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm cenedlaethol i mewn i gwricwlwm lleol bywiog sy'n ennyn diddordeb.

- Parhaodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i wella ei gyfleusterau TG gan gynnwys rhwydweithio diwifr, rhannu ffeiliau, dulliau newydd o ran addysgeg a fideo-gynadledda.

2.2 Gwella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb

- Llwyddwyd i sicrhau canlyniadau **Dysgu Oedolion yn y Gymuned** gorau erioed. Cafwyd gwelliant parhaus dros y 5 mlynedd diwethaf, gan arwain at lwyddiant o 93% (sef mesur cyffredinol o faint o gyrsiau a gafodd eu cwblhau a'u cyflawni'n llwyddiannus)
- Parhawyd i gael canlyniad cadarnhaol iawn (2.8%) o ran canran y disgyblion Blwyddyn 13 yn dod yn NEET o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (6.0%).
- Mae nifer yr oedolion o oedran gweithio yn Sir Gaerfyrddin sy'n meddu ar gymwysterau NQF lefel 4+ yn 2015 wedi gwella (32.6% yn 2014). Mae hyn yn dangos gwelliant graddol ar ein ffigur o 22.8% yn 2005.
- Parhawyd i ostwng canran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau yn Sir Gaerfyrddin i 11.1% yn 2015 o 11.2% yn 2014.
- Darparwyd **cymorth Cyllidebu Personél** a chymorth gallu digidol i gwsmeriaid fel rhan o'r Cytundeb Partneriaeth am Gredyd Cynhwysol.
- Parhawyd i gyfuno'r holl gyngor, gwybodaeth, addysg, cyfleoedd gwirfoddol a chyflogaeth yn y Sir drwy **Un Sir Gâr** gan wneud bywyd yn llawer haws i'r rheini sydd am ddychwelyd i'r gwaith, addysg ac hyfforddiant.
- Parhawyd i ddarparu cyfres o ddigwyddiadau, mewn partneriaeth â Choleg Sir Gâr, y Cyngor Sir a Gyrfaoedd Cymru, fel rhan o'r ymrwymiad i **gefnogi entrepreneuriaeth**.
- Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn parhau i ddarparu prosiect GWLAD, sy'n cynnwys cymorthdaliadau o 50-70% i fusnesau a sefydliadau dielw yng Ngorllewin Cymru i gynorthwyo â chostau dysgu gweithwyr.
- Darparodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant **Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid** Llywodraeth Cymru sy'n cynnig mynediad i bob myfyriwr i sgiliau cyflogadwyedd yn ogystal â chynghor a chymorth i'r rheini sy'n dymuno dechrau ar eu busnesau eu hunain.

2.3 Cynorthwyo rhieni a theuluoedd i ddatblygu dysgu eu plant

- Rhoddwyd cymorth i deuluoedd drwy amrywiaeth o **ymyraethau wedi'u targedu** drwy gynlluniau **Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf**, Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a rhaglenni eraill, gan gynnal teuluoedd a lleihau effaith posibl y rhai dan anfantais ar wasanaethau cyhoeddus.
- Parhawyd i ddatblygu a darparu cymorth i 116 o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin ar broblemau presenoldeb yn yr ysgol (cyfanswm o dros 27,109 o ddisgyblion) drwy ein **Gwasanaeth Lles Addysg sydd wedi'i ailfodelu**.
- Parhawyd i ddarparu adroddiad blynyddol i'r holl rieni gan yr ysgolion sy'n sôn wrthynt am bresenoldeb eu plentyn, canlyniad asesiadau athrawon (Blynyddoedd 2,6,a 9), canlyniadau arholiadau a gwybodaeth arall.
- Darparwyd **gwasanaeth cwnsela achrededig proffesiynol mewn ysgolion** i bobl ifanc o 10 i 18 oed a gomisiynwyd gan Area 43.
- Cofnodwyd 9,486 o ymweliadau â gwefan y **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** ac agorwyd y tudalennau 40,620 gwaith ac roedd 67% o'r rheini'n ymweliadau newydd.

2.4 Datblygu cymdeithas gynhwysol

- Datblygwyd **partneriaeth Pobl Ifanc Anabl** gyda rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys Coleg Sir Gâr, Gyrfaoedd Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i weithredu'r adroddiad 'Datgloi'r Potensial'.
- Parhawyd i weithio'n effeithiol gyda chydweithwyr o fewn y gwasanaethau plant, addysg ac iechyd, gan roi cymorth i blant rhwng 0-19 oed gyda Namau Synhwyrdd gan sicrhau mynediad i addysg a dysgu o safon uchel.
- Cymerwyd camau cadarnhaol o ran moderneiddio'r **gwasanaeth Prydau Ysgol am Ddim** gan gyflwyno taliadau ar-lein.
- Parhawyd i ddatblygu ein dull strategol o ennyn diddordeb plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt drwy gyfrwng y **Strategaeth Cyfranogi Plant a Phobl Ifanc**.
- Darparwyd y gwasanaethau newydd sefydledig a chyfunol i blant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu fel rhan o'r **rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf**.
- Parhawyd i gynnig hyfforddiaethau a lleoliadau drwy'r Cyngor o fewn y sir ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, yn ogystal â dysgu achrededig a heb ei achredu er mwyn helpu i **leihau nifer y bobl ifanc NEET** (nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).
- Mae **pecyn ysgoloriaeth a bwrsariaeth** Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnwys bwrsariaethau ar gyfer ymadawyr gofal a gofalwyr sy'n oedolion ifanc, yn ogystal â chefnogi cyfranogiad cyfrwng Cymraeg a myfyrwyr anabl.

2.5 Cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant, addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg

- Rydym wedi cynyddu nifer y gwasanaethau gofal plant **Cymraeg** sy'n cael eu darparu yn y Sir.
- Cwblhawyd y gwaith adeiladu ar gyfer ysgol newydd ddwyieithog categori 2B, Ysgol Bro Dinefwr, sydd ym mhentref Ffair-fach.
- Darparwyd Ysgol Carreg Hirfaen, ysgol cyfrwng Cymraeg drwy Raglen Moderneiddio Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin.
- Cofrestrwyd 292 o ddysgwyr unigol ar 31 o gyrsiau drwy gyfrwng y ddarpariaeth **Cymraeg i Oedolion**.
- Cynyddwyd nifer y myfyrwyr sy'n **astudio addysg bellach drwy gyfrwng y Gymraeg** gyda thargedau strategol i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio 5 a 40 o gredydau. Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn un o brif ddarparwyr Addysg Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n anelu at fod y prif ddarparwr dwyieithog yng Nghymru.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod?

- Byddwn yn parhau i ddal ERW a'r holl ysgolion i gyfrif am barhau i wella safonau a deilliannau i ddysgwyr, gan gymryd camau ymyrraeth lle nad yw perfformiad yn foddhaol.
- Byddwn yn lleihau ymhellach nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- Byddwn yn gwella rhaglenni diogelu mewn ysgolion a lleoliadau eraill er mwyn ymgorffori arferion a strategaethau mwy diogel i fodloni'r ddyletswydd Atal i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y peryglon o radicaleiddio.

- Byddwn yn parhau i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd mewn ysgol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd addysgol a lles plant gorau posibl, gan herio presenoldeb gwael ac absenoldebau parhaus.
- Byddwn yn cefnogi ysgolion, ar y cyd ag ERW, i wella deilliannau disgyblion ymhellach ond gyda phwyslais penodol ar godi cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal.
- Byddwn yn cwblhau adolygiad o wasanaethau rheoli ymddygiad a chyflwyno cynigion i ddiwygio darpariaeth.
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gan gynnwys lansio Siarter yr Iaith Gymraeg ar gyfer ysgolion cynradd nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg a chwblhau gweithdrefnau statudol i newid categori iaith Ysgol Bro Myrddin ac Ysgol Gynradd Llangennech yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Byddwn yn parhau i gynllunio Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin mewn partneriaeth ag ysgolion a darparwyr eraill, ac ymgorffori datblygiadau polisi cenedlaethol wrth iddynt ddod i'r amlwg, gan gyrraedd cerrig milltir allweddol yn unol â'r strategaeth ddatblygu *Palmantu'r Ffordd*, gan gynnwys cyhoeddi Datganiad Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin fel cam datblygu dros dro.
- Byddwn yn dirwyn i ben Strategaeth Ysgolion Uwchradd Dinefwr drwy gwblhau'r buddsoddiad moderneiddio ysgolion yn Ysgol Maes y Gwendraeth, i gyd-fynd â'r buddsoddiadau sylweddol yn Ysgol Bro Dinefwr ac Ysgol Dyffryn Aman a gafodd eu cwblhau yn 2015. Bydd hyn yn dirwyn i ben yr ad-drefnu helaeth o ran y ddarpariaeth yn ysgolion uwchradd y rhanbarth a buddsoddiad sy'n gyfanswm o £69 miliwn.
- Byddwn yn buddsoddi tua £19 miliwn ar brosiectau adeiladu mawr mewn ysgolion a phrosiectau moderneiddio yn Ysgolion Coedcae, Seaside, Trimsaran, Llangadog a Pharc y Tywyn.
- Drwy Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant byddwn yn datblygu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog ymhellach a fydd yn canolbwyntio ar lwybrau datblygu o ysgolion lleol a sefydliadau addysg bellach.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a chwmnïau a sefydliadau perthnasol o'r diwydiannau creadigol i ddilysu rhaglenni newydd sy'n gysylltiedig â menter Canolfan S4C (Yr Egin).

Astudiaeth Achos: Dathlu llwyddiant Arholiadau TGAU yn Sir Gaerfyrddin

Yn 2015 cafodd disgyblion Glan-y-Môr llwyddiant ysgubol.

- Mae wedi bod yn flwyddyn eithriadol o ran canlyniadau ar draws TGAU, Sgiliau Allweddol/Hanfodol a Chymwysterau Bagloriaeth Cymru.
- Cafodd y pymtheg disgybl ar frig y rhestr 100 o raddau A* ac A
- Mae'r gwelliant o ran Dangosydd cynhwysol Lefel 2 Allweddol dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyflawniad anhygoel. Mae'r ysgol wedi dyblu'r mesur perfformiad pwysicaf dros dair blynedd o 30% yn 2012 i 60%.

Yr hyn a ddywedodd y disgyblion.....



"Rwy'n hapus iawn â fy nghanlyniadau. Diolch i'r holl staff yn yr ysgol am eu cefnogaeth.

*"Roedden nhw'n ffantastig" **Robbie Williams***

*"Rwy'n hapus iawn gyda'r hyn dwi wedi'i gyflawni. Diolch i Ysgol Glan-y-Môr, gallaf bellach barhau â fy llwybr gyrfa!" **Tane Davies***

*"Roedd yr ysgol yn wych. Rwy'n hapus iawn. Diolch i bawb yn yr ysgol llwyddais i gyflawni popeth yr oeddwn ei eisiau." **Rebecca Roberts***

Canlyniad 3: Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn, ein nodau bydd:

- Cynnal ac anelu at leihau lefelau trosedd sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr
- Sicrhau bod cymunedau lleol yn fwy hyderus ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddu
- Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau lleol
- Lleihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol
- Diogelu pawb rhag camdriniaeth, erledigaeth, esgeulustod a rhag i eraill gam-fanteisio arnynt
- Lleihau goryrru a nifer y damweiniau ar y ffordd

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth?

Mae gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn targedu troseddwyd mynych y sir a thrwy weithio gyda'n gilydd ar fentrau amlasiantaeth niferus mae hyn eto wedi arwain at bartneriaeth lwyddiannus o ran mynd i'r afael â throsedd ac anrhefn yn 2015/16. Mae cyfraddau trosedd cryn dipyn yn is yn Sir Gaerfyrddin o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn nhermau cymharol rydym yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel.


Mae lefelau troseddu yng Nghaerfyrddin yn parhau i fod yn isel. O blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, roedd gan Sir Gaerfyrddin gyfradd a oedd yn llai na 44 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth, lefel debyg i'r llynedd. Mae hyn yn cymharu â 58 fesul 1,000 o breswylwyr yn ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Wrth gymharu, mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel yn DU ond yn ystod 2015/16 roedd lefelau troseddu wedi codi 10.1%, yn bennaf o ganlyniad i newidiadau wrth gofnodi data gan yr Heddlu er mwyn gwella cywirdeb y cofnodi. Roedd hyn yn gynydd o 747 o droseddau. Roedd 8,128 o droseddau o gymharu â 7,381 y flwyddyn flaenorol.

Roedd nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi parhau i ostwng yn ystod y flwyddyn, o 7,624 i 6,443 a oedd yn bositif. Mae'r gostyngiad hwn o 15.5% gydag 1,181 yn llai o adroddiadau am ddigwyddiadau cryn dipyn yn uwch na'r gostyngiadau a gafwyd y llynedd, ac yn hynny o beth mae niferoedd y dioddefwyr cryn dipyn yn is. Mae trafodaethau amlasiantaeth parhaus a chymau gweithredu y cytunwyd arnynt a gymerwyd mewn ymateb i ddigwyddiadau wedi helpu i gyfrannu at y canlyniad positif hwn. Mae gwelliannau ym mhroses gan yr heddlu o nodi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi arwain at lai o alwadau sy'n cael eu categorio yn rhai ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r pwyslais hefyd ar gofnodi troseddau yn gywir wedi arwain at nifer o alwadau a fyddai fel arall wedi cael eu cofnodi fel rhai ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond sydd bellach yn cael eu cofnodi yn drosedd lefel isel, sy'n esbonio'r cynnydd yn y ffigurau troseddau a'r gostyngiad mewn troseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Bydd y prif ddangosyddion poblogaeth canlynol yn mesur perfformiad y Sir o fewn y Canlyniad hwn ac mae diweddariad llawn ar gynnydd y dangosyddion hyn ar gael yn Adroddiad Blynyddol y Dangosyddion Poblogaeth ar gyfer 2015-16:

- Nifer y bobl a gafodd eu lladd neu'u hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ar y ffyrdd
- Cyfanswm nifer y troseddau a gofnodir
- Teimlo'n ddiogel yn eich ardal leol yn ystod y dydd ac yn ystod y nos
- Nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.

Byddwn yn edrych ar un o'r dangosyddion poblogaeth hyn – nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ar y ffyrdd – yn fanylach.



Ffynhonnell: Swyddfa Gartref ac Ystadegau Gwladol

2015 102 o unigolion

2014 94 o unigolion

Yn ystod 2015 cafwyd cynnydd yn nifer y bobl a gafodd eu lladd neu'u hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ar y ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin o 94 i 102. Roedd y perfformiad ar draws y flwyddyn o gymharu â 2014 wedi dangos cynnydd mewn sectorau penodol ond mae'r duedd o ran perfformiad o gymharu â thargedau 2020 yn gwella.

Rydym ni, ar y cyd a Llywodraeth Cymru, yn ymrwymedig i wella diogelwch ffyrdd a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu'u hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd. Rydym yn gweithio i wella diogelwch ffyrdd er mwyn cyrraedd y targedau a osodwyd yn Fframwaith Diogelwch Ffyrdd y Llywodraeth.

- Gostyngiad o 40% yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol erbyn 2020.
- Gostyngiad o 25% yn nifer y gyrwyr beiciau modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol erbyn 2020.
- Gostyngiad o 40% yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol erbyn 2020.

Y ffigurau gwaelodlin oedd:

- Nifer y bobl a gafodd eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol = 116
- Nifer y gyrwyr beiciau modur a gafodd eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol = 18
- Nifer yr oedolion ifanc a gafodd eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol = 33

Nodir isod y perfformiad ar ddiwedd 2015 o gymharu â'r targedau allweddol:

- Gostyngiad o 12% yn nifer y bobl a gafodd eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol.

- Gostyngiad o 6% yn nifer y gyrwyr beiciau modur a gafodd eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol.
- Gostyngiad o 34% yn nifer y gyrwyr beiciau modur a gafodd eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol.

Mae hyn o fewn amgylchedd lle mae traffig wedi cynyddu mewn blwyddyn i 1.95 biliwn cilometr y flwyddyn o gymharu â 1.83 biliwn yn 2012.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn diogelwch ffyrdd drwy ariannu addysg, peirianeg a gwerthuso. Rydym wedi parhau i gefnogi camau gorfodi gan yr Heddlu a Gan Bwyll drwy ein Gweithgor Rheoli Cyflymder.

Yn gyffredinol, cafodd llai o bobl eu lladd neu'u hanafu yn y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft roedd 557 yn 2014 o gymharu â 619 yn 2013, mae'r ffigurau ar gyfer pobl a gafodd eu lladd neu'u hanafu wedi cynyddu i 596 yn 2015. Fodd bynnag mae perfformiad o gymharu â thargedau 2020 yn parhau'n gadarnhaol. Roedd rhai grwpiau penodol o ddefnyddwyr ffyrdd yn peri pryder, er enghraifft, roedd nifer y gyrwyr beiciau modur a gafodd eu ladd a'u hanafu'n ddifrifol yn Sir Gaerfyrddin yn gymharol uchel gydag 17 o farwolaethau ar ddiwedd 2015, fodd bynnag roedd hyn yn ostyngiad sylweddol o 24 y flwyddyn flaenorol. Gan weithio gyda phartneriaid allweddol, buom yn ymgysylltu â gyrwyr beiciau modur i hyrwyddo pwysigrwydd diogelwch i'r grŵp agored i niwed hwn. Roedd y gwaith yn cynnwys darparu hyfforddiant arbenigol a gwaith gorfodi sydd wedi helpu i ostwng nifer y gyrwyr beiciau modur a gafodd eu a/neu'u hanafu'n ddifrifol.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

3.1 Cynnal ac anelu at leihau lefelau trosedd sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr

- Llwyddwyd i **ostwng aildroseddu** sydd wedi parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gydag asiantaethau partner yn cydweithio i fynd i'r afael â'n prif aildroseddwy'r er mwyn ceisio torri'r cylch aildroseddu a gostwng troseddau yn lleol. Mae ein cynllun Rheoli Troseddwy'r yn Integredig, sef 'Trawsnewid/Transform', yn cynnwys un swyddfa a thîm o adnoddau penodedig gan yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf sy'n canolbwyntio ar ein prif droseddwy'r. Mae'r ystadegau diweddaraf ar gyfer y 104 o droseddwy'r yn y garfan ar gyfer y 12 mis a ddaw i ben ym mis Mawrth 2016 yn dangos gostyngiad o 194 o droseddau ganddynt, o 663 i 469. Mae cyfanswm yr arbediad cost a ragwelir dros £1 miliwn (Ffigurau cost troseddau'r Swyddfa Gartref).
- Mae datblygiadau i wella gweithio mewn partneriaeth drwy ddefnyddio **dull Rheoli Troseddwy'r yn Integredig** yn cynnwys gwell ymgysylltiad ag asiantaethau megis Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, cysylltiadau â rheoli troseddwy'r treisgar difrifol a'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i oedolion, ac mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid bellach yn bresennol yn y sesiynau briffio tîm.
- Yn 2014 lansiodd Safonau Masnach **gynllun atal sgamiau arloesol** - y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Drwy gydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, mae'r tîm wedi gallu nodi dioddefwyr nad oedd yn hysbys iddynt eisoes ac atal rhai o'n pobl sydd fwyaf agored i niwed a'r henoed rhag anfon degau ar filoedd o bunnoedd i ymgyrchoedd loteri, cystadlaethau ffug a sgamiau buddsoddi. Mae'r tîm yn darparu cymorth parhaus drwy gysylltu â phartneriaid i ddarparu ymyrraeth amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau nad yw dioddefwyr yn cael eu targedu eto, ac i fynd

i'r afael ag unrhyw bryderon sylfaenol y gallai camdriniaeth ariannol fod yn arwydd cynnar ohonynt. Mae'r cynllun wedi sicrhau cefnogaeth pob cangen o Fanc Barclays, Halifax a Chyngor ar Bopeth yn y sir, ac mae'n denu llawer o ddiddordeb gan siroedd cyfagos sy'n awyddus i ddyblygu a datblygu cynlluniau eu hunain. Bu'r cynllun yn llwyddiannus yn ennill gwobr arddangoswr gorau'r awdurdodau lleol yn ystod Cynhadledd y Safonau Masnach Siartredig ym mis Mehefin 2016, a chafodd ei enwebu i fynd i'r rownd derfynol mewn dau o'r categorïau yng ngwobrau Cenedlaethol Municipal Journal 2016 gan dderbyn canmoliaeth arbennig.

- Mae **llai o blant a phobl ifanc yn cyrraedd y System Cyfiawnder Ieuencid am y tro cyntaf**. Mae hyn wedi parhau i ostwng dros y blynyddoedd ac yn 2015/16, disgynnodd hyn i 40 o 49 y flwyddyn flaenorol. Pum mlynedd yn ôl, roedd y ffigur dros 200. Mae gwaith targed amlasiantaeth effeithiol wedi cyfrannu at y llwyddiant hwn, gyda rhagor o ffocws yn cael ei roi ar waith ataliol gan bartneriaid.
- Cynyddwyd gweithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â **gwaith gwrthderfysgaeth** yn lleol. Yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch, mae'r Cyngor a phartneriaid statudol eraill yn dechrau gweithredu'r 'Ddyletswydd Atal' newydd, sy'n golygu bod rhaid i ni "rhoi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth". Mae'r camau gweithredu'n cynnwys hyfforddiant i staff a sicrhau y codir ymwybyddiaeth am y mater a bod y prosesau atgyfeirio ar waith. Yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan y Ddeddf, mae'r Cyngor wedi sefydlu Panel Sianel amlasiantaeth. Mae'r Panel lleol hwn yn cynnig cymorth i'r nifer bach o unigolion sydd wedi cael eu nodi fel rhai sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio.
- Cyflwynwyd Bwrdd Lleol newydd i sicrhau cydweithio agos ar droseddau cyfundrefnol a difrifol a cheir presenoldeb da gan bartneriaid o'r gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector. Darperir diweddariadau ar fygythiadau am droseddau cyfredol a'r rhai a ragwelir a heriau atal, a hynny yn cynnwys rhai gan Heddlu Dyfed-Powys, gyda chefnogaeth Safonau Masnach. Mae'r enghreifftiau da o waith a gynhyrchwyd gan y Bwrdd yn cynnwys gwell ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth newydd ynghylch Sylweddau Seicoweithredol (a elwid gynt yn anterth cyfreithlon), ymwybyddiaeth o sgamiau ar-lein a gwell rhannu gwybodaeth am weithrediadau tyfu canabis posibl a marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau.
- Mae Ymgyrch y Rhuban Gwyn yn erbyn cam-drin domestig wedi cael cefnogaeth gan aelodau o staff sy'n ddynion mewn llawer o wasanaethau cyhoeddus ac mae cynghorwyr sir wedi llofnodi addewid i beidio â chyflawni na chydoddef trais yn erbyn menywod na merched.

Sicrhau bod cymunedau lleol yn fwy hyderus ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddu

- **Lefelau parhaus o hyder/canfyddiad postif gan y cyhoedd** ar draws ystod o faterion yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Yn ôl canlyniadau Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, roedd Dyfed-Powys yn y safle cyntaf ar draws Heddluoedd Cymru a Lloegr o ran yr Heddluoedd a'r Cynghorau a oedd yn ymdrin â materion a oedd yn bwysig i bobl leol, gyda sgôr o 73.6%.
- Lansiodd **Fforwm Troseddau Casineb** Dyfed Powys yn ystod 2015/16. Mae'r Fforwm yn cynnwys grwpiau cymunedol a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Roedd y Fforwm wedi cynllunio a darparu dros 60 o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ardal Dyfed Powys yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.

- Lansiodd rhaglen hyfforddi yn y rhanbarth i godi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern gan Fforwm Gwrth-gaethwasiaeth Dyfed-Powys.
- Cafodd y **poster 'Parch/Respect'** ei arddangos mewn mannau cyhoeddus gan gynnwys ysbytai, canolfannau siopa a hysbysfyrddau cymunedol. Cafodd y posteri hyn, sy'n anelu at hyrwyddo parch a chydaddoldeb, hefyd eu dosbarthu ledled y sir gan ein timau plismona bro. Cyflawnwyd y gwaith hwn gan Gydraddoldeb Sir Gaerfyrddin, sef grŵp o sefydliadau'r trydydd sector sy'n cynrychioli gwahanol sefydliadau cydraddoldeb a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r grŵp yn gweithio er mwyn meithrin cysylltiadau da a hyrwyddo cydlyniant cymunedol.
- Cynyddwyd yr **ymgysylltiad cymunedol** gan ganolbwyntio ar gyfryngau cymdeithasol, fan gorsaf yr heddlu symudol a Gwasanaeth Negeseuon Cymunedol newydd. Yn ogystal â chael presenoldeb y timau plismona bro ar Twitter i dynnu sylw at negeseuon atal troseddau a'r hyn sy'n digwydd yn lleol, mae'r Heddlu hefyd wedi sefydlu cyfrif Instagram i gynyddu ymgysylltiad â phobl ifanc. Mae'r Gwasanaeth Negeseuon Cymunedol newydd yn helpu i ddiogelu cymunedau a chanfod ac atal troseddau drwy anfon gwybodaeth yn uniongyrchol at bobl lleol.
- Mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, mae'r heddlu wedi treialu **Swyddog Cymorth Cymunedol a'r Heddlu pwrpasol** yn Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli er mwyn cynyddu ein hymgysylltiad, hygyrchedd a mynd i'r afael â bregusrwydd mewn lleoliad allweddol. Bydd y fenter yn cael ei gwerthuso yn 2016.
- Codwyd ymwybyddiaeth o **weithio mewn partneriaeth**. Roedd erthyglau yn Newyddion Sir Gâr gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi helpu i godi ymwybyddiaeth am yr ystod o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth. Roedd hyn yn cynnwys 'Cynllun Gwarchod Adeg Gwyliau', sef cynllun arloesol i fenthyg offer diogelwch i drigolion lleol heb fesurau diogelwch digonol neu sy'n poeni'n fawr am drosedd yn digwydd pan fyddant ar wyliau, ac osgoi bod yn destun sgamiau a gwedroedd.
- Parhawyd i ddefnyddio **cyfiawnder adferol** wrth ymwneud â phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys cyfryngu rhwng y dioddefwr a'r troseddwr, trefnu cyfarfodydd rhwng y dioddefwr a'r person ifanc sydd wedi troseddau, a gwaith gwirfoddol yn cael ei gyflawni gan y person ifanc yn unol â dymuniadau'r dioddefwr. Yn ystod 2015/16, cafodd bron i 1,000 o oriau o waith gwirfoddol ei gyflawni gan bobl ifanc fel rhan o gynllun ymyrraeth cyfiawnder ieuenctid a gytunwyd.

3.3 Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau lleol

- Mae gwaith amlasiantaeth wedi'i dargedu i fynd i'r afael â phroblemau wedi parhau a datblygwyd prosiectau arloesol i wella gwaith partneriaeth er mwyn **lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol**.
- Gweithiwyd yn well gyda'r **gwasanaeth atgyfeirio a rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol** a ddarparwyd gan Gwalia mewn perthynas â sefydliadau. Mae'r gwasanaeth hwn yn canolbwyntio ar y dioddefwr, gan barhau i edrych ar y cyflawnwr a'r dioddefwr mewn cyfarfodydd grwpiau datrys problemau lleol rheolaidd. Mae datblygiadau yn y cynllun yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys rhannu gwybodaeth am berfformiad â phartneriaid gyda thrafodaethau'n arwain at well berthynas waith, a chysylltiadau agosach â'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid er mwyn sicrhau eu bod yn ymwneud â'r atgyfeiriadau sy'n berthnasol i bobl ifanc.

- Parhawyd i weithio gyda phartneriaid er mwyn **gweithredu'r ddeddfwriaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol newydd** yn lleol ac yn rhanbarthol, o ran y ddeddfwriaeth ac arfer gorau o ardaloedd eraill gyda'r wybodaeth yn cael ei chylchredeg i asiantaethau partner. Mae trafodaethau penodol bellach wedi cael eu cynnal yn lleol o ran gweithredu rhai o'r pwerau newydd a gyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth ac mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith.
- Parhawyd gyda dull gweithredu wedi'i dargedu gyda **phobl ifanc sy'n debygol o aildroseddu** ar ôl cael rhybudd. Mae'r Swyddfa Cyfiawnder Ieuencid yn cytuno ar ffordd ymlaen i ddelio â phlant a phobl ifanc sy'n gymwys am Rybudd Ieuencid. Mae'r Heddlu yn cyflwyno atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Cymorth Ieuencid er mwyn ei asesu. Mae'r broses yn galluogi i safbwyntiau'r dioddefwyr gael eu hystyried pan fydd y panel penderfyniadau (Gwasanaeth Cymorth Ieuencid, yr Heddlu a chynrychiolydd o'r gymuned) yn cytuno ar ymyraethau pwrpasol gyda'r person ifanc a'i riant/gofalwr er mwyn lleihau'r risg ohono'n troseddu eto neu'n ailadrodd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

3.4 Lleihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol

- Parhawyd â'r cynnydd da eleni o ran **mynd i'r afael ag achosion o drais cysylltiedig ag alcohol yn economi'r nos**, gyda'r ffocws ar weithio gyda'n partneriaid, y sector gwirfoddol a thrwyddedwyr i wneud ein Sir yn fwy diogel.
- Aethom ati i weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth i gyflwyno **strategaeth yr Heddlu i leihau troseddau treisgar cysylltiedig ag alcohol**. Cymerwyd camau gweithredu wedi'u targedu dros gyfnod y Nadolig, y Flwyddyn Newydd ac yn ystod cystadleuaeth y Chwe Gwlad. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda thrwyddedwyr, bragdai a goruchwylwyr drysau i fynd i'r afael â throseddau cysylltiedig ag alcohol mewn eiddo a drwyddedir ac o'u hamgylch, ymweliadau ar y cyd â'r Heddlu a thimau trwyddedu'r Cyngor a'r Heddlu yn cysylltu â swyddogion Safonau Masnach o ran unrhyw faterion sy'n ymwneud ag yfed a gwerthu dan oed i bobl ifanc.
- Cefnogwyd ymgyrch yr Heddlu i atal **troseddau treisgar cysylltiedig ag alcohol**. Cafodd Addewid Paul ei lansio yn 2014 pan wnaeth Paul Pugh ddychwelyd i'r man lle dioddefodd ymosodiad direswm yn 2007 a'i gadawodd mewn coma am ddau fis. Cafodd pedwar dyn eu carcharu am yr ymosodiad. Mae Addewid Paul yn gofyn i bobl addo na fyddant byth yn goddef trais. Cafodd y cynllun eil ail-lansio yn y Nadolig i atgoffa pobl o oblygiadau o drais cysylltiedig ag alcohol yn ystod nosweithiau allan ac mae Paul wedi parhau i ymweld ag ysgolion gyda chydweithwyr yr Heddlu i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc. Mae'r ymgyrch wedi ymddangos ar y teledu gyda rhaglenni dogfen yn cael eu dangos ar ITV Wales ac S4C.
- Datblygwyd modiwl e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff y Cyngor o bolisi newydd y gweithle ar **Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**. Nod y polisi yw codi ymwybyddiaeth am y drosedd hon na hysbysir yr heddlu yn ddigonol amdani, rhoi gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael a chynnig canllawiau i reolwyr a staff ynglŷn â sut i ddelio â'r mater.
- Cynhaliwyd gwerthusiad o'r **Gorchymyn Man Cyhoeddus** yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gorchymyn yn cynnwys rhan o Ganol Tref Llanelli a bu'n llwyddiannus yn mynd i'r afael ag yfed mewn mannau cyhoeddus. Mae wedi bod yn gynllun defnyddiol sydd wedi cael ei orfodi'n effeithiol. Nid oedd tystiolaeth i ddangos bod y problemau wedi symud

i ardaloedd lleol eraill ac nid oedd tystiolaeth i awgrymu y dylai ffiniau'r Gorchymyn Man Cyhoeddus gael eu hadolygu.

3.5 Diogelu pawb rhag camdriniaeth, erledigaeth, esgeulustod a rhag i eraill gamfanteisio arnynt

- Hyfforddwyd holl **staff y Ganolfan Byd Gwaith** i adnabod arwyddion rhybudd gan gwsmeriaid, fel rhan o'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth am fasnachu pobl. Mae proses gyfeirio wedi cael ei datblygu er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw bryderon am unigolion.
- Roedd y Cyngor wedi chwarae rhan ganolog yn y **gynhadledd ranbarthol** lwyddiannus ym mis Medi lle bu 100 o gynrychiolwyr yn bresennol. Cyflwynwyd adroddiad allweddol ar esgeuluso pobl hŷn mewn cartrefi gofal a chafwyd tystiolaeth deimladwy gan deuluoedd a gofalcwyr yr effeithiwyd arnynt gan yr esgeulustod hwnnw. Ers hynny mae cynllun gweithredu ranbarthol wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Llwyddwyd i ddileu'r risg ar gyfer 137 o **oedolion agored i niwed** o blith y 281 o achosion amddiffyn oedolion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.
- Gweithiwyd gyda Gwasanaethau Oedolion er mwyn **gwella arferon diogelu** yn y Gwasanaeth Cymorth Ieuencid i amddiffyn y plant, y bobl ifanc a'r oedolion ifanc sy'n cael cymorth.

3.6 Lleihau goryrru a nifer y damweiniau ar y ffordd

- Parhawyd i weithio mewn **partneriaeth** â'r Heddlu Gan Bwyll, y Gwasanaeth Tân ac Achub ac asiantaethau eraill i ddatblygu ar sail ein llwyddiant blaenorol.
- Buddsoddwyd £439,000 mewn **prosiectau trin ffyrdd gwledig** i wella seilwaith ar yr A485 o Alltwalis i New Inn, yr A484 o Gydweli i Gwmffrwd a'r B4306 o'r Hendy i Gwmffrwd.
- **Buddsoddwyd** £138,000 mewn hyfforddiant Diogelwch Ffyrdd ac ymgysylltu â defnyddwyr ffyrdd agored i niwed gan gynnwys 196 o yrwyr hŷn, 1,165 o yrwyr ifanc, 104 o yrwyr beiciau modur, hyfforddwyd 713 o bobl ifanc o ran diogelwch ar ymyl y ffordd a darparwyd hyfforddiant beicio mewn 31 o ysgolion cynradd.
- Cyflawnwyd rhagor o **welliannau i seilwaith a newidiadau i derfynau cyflymder** mewn ardaloedd gan gynnwys Ysgol Sarn, Llangadog, Seaside, Llanelli, Trimsaran a Mynyddygarreg.
- Diweddarwyd y feddalwedd ar **gyfrifiaduron i wella ansawdd rheoli gwybodaeth** y byddwn yn ei ddefnyddio i dargedu ymyriadau addysg, peirianeg neu orfodi.
- Parhawyd i ddatblygu a chyflawni'r **strategaeth trin ffyrdd gwledig**. Roedd hyn yn cynnwys gwelliant ar hyd y ffordd gyfan yn hytrach na safleoedd unigol. Mae'n cynnwys y camau canlynol: - gosod arwyddion ar gyffyrdd a throeon, gosod arwyddion sy'n fflachio wrth i gerbydau agosáu, trin ymylon ac arwynebau'r ffyrdd er mwyn cael gwared â pheryglon a chyflwyno terfynau cyflymder is. Bydd hyn yn helpu gyrwyr rhag gwneud camgymeriad a allai arwain at wrthdrawiad, yn hynny o beth helpu'r gyrrwr i yrru mor ddiogel â phosibl.
- Cyflwynwyd **terfynau cyflymder 20mya** mewn ardaloedd trefol gan roi blaenoriaeth i safleoedd ysgolion a safleoedd eraill lle mae nifer sylweddol o ddefnyddwyr ffyrdd agored i niwed.



Cynhaliwyd ymgyrchoedd gerllaw **ysgolion** yn cynnwys plant ysgol i leihau achosion o oryrru. Rydym wedi helpu i ddarparu cynlluniau hyfforddi megis hyfforddiant 'Dragon Rider Cymru' am ddim i yrwyr beiciau modur i'w helpu i fod yn yrwyr mwy diogel, ac rydym wedi annog gyrrwyr ifanc i gymryd rhan yn hyfforddiant 'Pass Plus Cymru' i wella eu sgiliau gyrru ac ennill profiad ychwanegol mewn sefyllfaoedd gwahanol.



Darparwyd, mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Tân ac Achub, gwybodaeth a chyngor ar y **Pump Angheuol** - gyrru'n rhy gyflym, gyrru'n ddiogel, defnyddio ffôn symudol wrth yrru, gyrru ar ôl yfed alcohol/cymryd cyffuriau a pheidio â gwisgo gwregys diogelwch.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod?

- Byddwn yn canolbwyntio ar amddiffyn ein trigolion mwyaf agored i niwed gan sicrhau dull amlasianaeth gan roi negeseuon diogelwch cymunedol pan fydd ein staff yn cynnal ymweliadau cartref.
- Byddwn yn parhau i sicrhau gwaith partneriaeth effeithiol mewn perthynas ag atal troseddu ac aildroseddu.
- Byddwn yn hyrwyddo prosiectau atal troseddu, gan gynnwys sgamiau ac amddiffyn pobl agored i niwed ac eiddo.
- Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r broblem gwe-drosedd gyda'r nod o amddiffyn ein trigolion, gan ddarparu hyfforddiant arbenigol i staff gwasanaethau cyhoeddus a chyflwyno hyrwyddwyr gwe-drosedd yr heddlu.
- Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu er mwyn rhoi ar waith y 'Ddyletswydd Atal', sef y ddyletswydd lle mae'n rhaid i bartneriaid penodol roi sylw dyledus i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth.
- Byddwn yn gweithio er mwyn cynyddu nifer y troseddau a'r achosion o anrhefn yr hysbysir yr heddlu amdanynt ac yn hyrwyddo dulliau ymgysylltu â chymunedau lleol.
- Byddwn yn ystyried mabwysiadu proses asesu risg gyffredin ar gyfer digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn sicrhau y nodir y lefel o risg a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd.
- Byddwn yn gwella rhannu gwybodaeth am achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol rhwng yr holl asiantaethau partner.
- Byddwn yn hyrwyddo ymhellach ymgyrch #AddewidPaul ar gyfer trais cysylltiedig ag alcohol.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda safleoedd trwyddedig, siopau trwyddedig a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â phroblemau mewn cymunedau a lleoliadau domestig yn ystod y nos o ran troseddau cysylltiedig ag alcohol a chyffuriau.
- Byddwn yn asesu angen ac yn mapio'r ddarpariaeth bresennol er mwyn cyfarwyddo datblygiad y Strategaeth Cam-drin Ddomestig a Thrais Rhywiol.
- Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu er mwyn cyflawni Gwobr Tref ymgyrch y 'Rhuban Gwyn', a fydd yn dangos ymrwymiad asiantaethau partner i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn erbyn menywod a merched, yn enwedig drwy ymgysylltu â dynion a bechgyn.
- Byddwn yn gwella ansawdd rheoli gwybodaeth am Ddiogelwch Ffyrdd ac yn ei defnyddio i dargedu ymyriadau addysg, peirianeg neu orfodi.

- Byddwn yn parhau i dargedu goryrru gan gynnwys defnyddio Cynlluniau Gwyllo Cyflymder Cymunedol.
- Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 40% erbyn 2020.
- Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y gyrwyr beiciau modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 25% erbyn 2020.
- Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y bobl ifanc (rhwng 16-24 oed) sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 40% erbyn 2020.

Astudiaeth Achos: Yn destun sgamiau

- Cafod preswilydd oedrannus ei dwyllo allan o £90,000 am welliannau i'w gartref nad oedd yn cyrraedd y safon. Cyfeiriwyd y mater at Safonau Masnach gan staff cangen Halifax a oedd yn pryderu. O ganlyniad i'r ymyrraeth hon cafodd y preswilywr ei atal rhag gwneud taliad arall o £30,000. Cafodd pedwar unigolyn eu cyhuddo o dan Ddeddf Twyll 2006 a'u dedfrydu i 38 mis a 25 mis yn y carchar, gyda dwy ddeddfryd ychwanegol wedi'i gohirio o 11 mis yr un.
- Cafodd preswilydd oedrannus ei atal rhag anfon £14,000 i loteri ffug yn Costa Rica. Roedd y preswilydd wedi cael addewid am £750,000 ond roedd rhaid anfon £14,000 er mwyn ardystio bod yr arian yn dod i'r wlad yn gyfreithlon ac na fyddai'n cael ei ddefnyddio i ariannu terfysgaeth. Yn sgil pryder staff Banc Barclays cyfeiriwyd y mater i Safonau Masnach a'r Heddlu er mwyn ymchwilio ymhellach.
- Roedd preswilydd oedrannus o Borth Tywyn wedi anfon £50,000 dros 10 mlynedd i loteriau ac chystadlaethau ffug. Daeth y cwsmer at sylw Safonau Masnach drwy gyfrwng y Ganolfan Sgamiau Cenedlaethol yn dilyn cael gwarant i archwilio Blwch Swyddfa'r Post a llwyddwyd i atal post a anfonwyd gan y preswilydd a oedd yn cynnwys sieciau wedi'u llofnodi ar gyfer y sefydliad ffug. Cafodd y sieciau eu dychwelyd at y preswilydd, a gosodwyd teclyn i atal galwadau ffug ac mae'n parhau i dderbyn cymorth.
- Roedd preswilydd o Lanelli wedi rhoi ei gynilion oes gwerth £75,000 i sgamiau yn ymwneud â diemwntau, gwin a chelfyddyd gain. Roedd y preswilydd a oedd yn ei 70au â nam ar ei olwg, wedi denu sylw staff Halifax ac aethant ati i gysylltu â Safonau Masnach. Mae bellach yn byw mewn tŷ gwarchod ac mae'n parhau i gael cymorth gan Safonau Masnach, y gwasanaethau cymdeithasol a thimau Tai. Mae dyfais atal galwadau niwsans wedi cael ei gosod ac mae'r galwadau i'w linell ffôn yn cael eu monitro.

Canlyniad 4: Mae cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn, ein nodau bydd:

- Byw o fewn ein terfynau amgylcheddol gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a lleihau ein hallyriadau carbon
- Lleihau gwastraff a symud tuag at ddod yn sir dim gwastraff
- Cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw a chynaliadwy
- Amddiffyn, gwella a diogelu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a hyrwyddo bioamrywiaeth yn y sir
- Datblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy
- Datblygu dewisiadau trafndiaeth gynaliadwy
- Sicrhau yr hyrwyddir y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth?

Byddwn yn parhau i annog a chefnogi dulliau cynaliadwy o drafndiaeth yn y sir er mwyn helpu i leihau ein hallyriadau carbon sy'n gysylltiedig â defnyddio ceir preifat. Rydym yn buddsoddi yn y *seilwaith priffyrdd* er mwyn lleihau tagfeydd gan gynnwys adeiladu ffyrdd cyswllt allweddol a gwella llwybrau beicio a cherdded i annog ffordd o fyw mwy iach ac i leihau nifer y teithiau byr mewn car.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y system drafndiaeth gyhoeddus. Mae'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus hefyd yn helpu i gynorthwyo economïau canol y trefi wrth i bobl deithio i mewn i'r dref am waith, adwerthu, hamdden ac angen cymdeithasol. Mae'n rhan o'r opsiynau trafndiaeth sy'n ofynnol ym mhob canol tref i helpu i ostwng y tagfeydd cymaint â phosibl ac i leihau allyriadau.


Cafwyd nifer o ddatblygiadau sylweddol o ran y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys derbyn **Safonau'r Gymraeg** fel rhan o'r fframwaith newydd a gefnogir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yn ogystal, rydym yn parhau i gefnogi'r canolfannau iaith yn sef 'Y Lle' yn Llanelli a'r 'Atom' yng Nghaerfyrddin i ddatblygu defnydd yr iaith ymhellach gan y gymuned ac yn y gymuned.

Byddwn yn parhau i gydweithio gyda phrosiect **'Yr Egin' S4C** er mwyn helpu i gefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant yn lleol ac yn genedlaethol yn y dyfodol.

Bydd y prif ddangosyddion poblogaeth canlynol yn mesur perfformiad y Sir o fewn y Canlyniad hwn ac mae diweddariad llawn ar gynnydd y dangosyddion hyn ar gael yn Adroddiad Blynyddol y Dangosyddion Poblogaeth ar gyfer 2015-16:

- Allyriadau CO2
- Ôl-troed ecolegol
- Gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi
- Ansawdd afonydd
- Bygythiad o lifogydd
- Nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir.

Byddwn yn edrych ar un o'r dangosyddion poblogaeth hyn – gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi – yn fanylach.



Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin a Ystadegau Cenedlaethol

2015/16 5.25%

2014/15 18.11%

Mae tunnelledd y gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi dros y 10 mlynedd diwethaf wedi gostwng dros 80%, o 71,700 o dunelli yn 2006/7 i 4,000 o dunelli yn 2015/16. Ar ddiwedd 2015/16 mae Sir Gaerfyrddin wedi ailgylchu 63% o'i gwastraff trefol sydd wedi mynd y tu hwnt i darged cenedlaethol 2015/16 sef 58%. Mae yna daliadau cosb o £200 y dunnell a godir arnom gan y Llywodraeth os nad ydym yn cyrraedd y targedau hyn, yn ogystal â thaliadau cosb Lwfans Tirlenwi o £200 y dunnell.

Mae'r cynnydd sylweddol mewn perfformiad yn ystod 2015/16 ar gyfer arallgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi wedi'i gyflawni drwy gyflwyno proses trin gwastraff gweddilliol hanner ffordd drwy'r flwyddyn.

Yr agenda wastraff, heb amheuaeth, yw'r her fwyaf sy'n wynebu'r Awdurdod o ganlyniad i dargedau ailgylchu a thirlenwi a osodir gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Mae'r trigolion yn dweud bod ailgylchu yn bwysig iddynt a heb eu cefnogaeth byddai'n anodd ymateb i'r her. Gan adeiladu ar lwyddiant blyneddau blaenorol mae'r awdurdod wedi cyflogi cynghorydd ailgylchu newydd drwy'r ERDF, drwy Lywodraeth Cymru i gyrraedd y targed ailgylchu o 70% erbyn 2025. Mewn ymateb i ymgynghoriad gydag aelodau a'r panel dinasyddion, mae Cynllun Rheoli Sbwriel wedi'i ddrafftio sy'n gosod ymrwymiad y Cyngor a'i bartneriaid i fynd i'r afael â sbwriel yn Sir Gaerfyrddin.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

4.1 Byw o fewn ein terfynau amgylcheddol gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a lleihau ein hallyriadau carbon

- Roedd nifer y teithiau i'r Ganolfan Byd Gwaith a lleoliadau eraill wedi lleihau drwy **hyrwyddo'r** defnydd o gael mynediad i wasanaethau drwy e-bost, cyfryngau cymdeithasol neu'r ffôn.
- Parhawyd i annog **defnyddio tele-gynadledda a fideo-gynadledda** i leihau milltiroedd hyd yn oed yn fwy.

- Gweithiwyd i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau CO2 drwy barhau i **fuddsoddi mewn prosiectau ynni cynaliadwy** er mwyn lleihau effaith y Cyngor ar newid hinsawdd.
- Parhawyd i wneud gwelliannau i nifer o arosfannau bysiau a hybiau er mwyn sicrhau bod trafndiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch, diogel a mwy deniadol, gan annog llai o ddefnydd o gerbydau preifat.
- Hyrwyddwyd y defnydd o **drafnidiaeth gyhoeddus** a dulliau teithio mwy cynaliadwy drwy Travelwise/Workwise.
- Hyrwyddwyd y Cynllun Beicio i'r Gwaith yn llwyddiannus lle mae staff yn llogi beiciau am 12 mis drwy gyfrwng taliadau ildio cyflog.
- Cymerwyd camau i **leihau'r defnydd o ynni** ledled campysau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mewn gwirionedd felly, lleihad o 5% mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â defnyddio nwy, gyda lleihad tebyg o ran defnyddio ynni.
- Rhoddwyd amrywiaeth o ymgyrchoedd ar waith i ddenu staff a myfyrwyr i **leihau eu heffaith ar yr amgylchedd** fel unigolion ac ar y cyd. Mae **ymgyrch Effaith Werdd** Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant bellach yn ei phedwaredd flwyddyn ac mae wedi annog aelodau o staff i arfer cynaliadwyedd ar draws y swyddfa.
- Parhawyd i fuddsoddi ledled y Cyngor Sir, mewn **oddeutu dau gant o brosiectau, yn cwmpasu technolegau** o oleuadau LED ac inswleiddio i falfiau rheiddiadur thermostatig.

4.2 Lleihau gwastraff a symud tuag at ddod yn sir dim gwastraff

- Gweithiwyd mewn partneriaeth gyda thrigolion y sir, drwy Gyngor Sir Caerfyrddin, i **leihau, aildddefnyddio ac ailgylchu** eitemau yn hytrach na'u taflu i ffwrdd.
- Parhawyd i annog aelwydydd o fewn y sir i **ailgylchu** wrth baratoi ar gyfer y newidiadau i resymoli'r llwybrau sydd ar ddod ym mis Hydref 2016.
- Cafodd cyfanswm y gwastraff trefol sy'n cael ei dirlenwi ei leihau, gan ailgylchu 63.52% yn 2015/2016 sydd llawer yn uwch na'r targed cenedlaethol o 58% a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae'r cynnydd mewn perfformiad o ganlyniad i ddethol a thynnu allan deunyddiau y gellir eu hailgylchu o'r ffrwd gwastraff gweddilliol, arallgyfeirio gwastraff o'r safleoedd tirlenwi i safleoedd sy'n troi gwastraff yn ynni, a'r cynnydd mewn ailgylchu ffrydiau gwastraff mewn cyfleusterau cydnabyddedig sy'n bodloni gofynion Targedau Ailgylchu'r Awdurdod Lleol.

4.3 Cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n economaidd hyfyw a chynaliadwy

- Parhawyd i ddatblygu'r **Cynllun Datblygu Lleol** sy'n disodli'r Cynllun Datblygu Unedol Trwy i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a helpu i adeiladu cymunedau mwy cynaliadwy, gyda mynediad at wasanaethau lleol a lleihau'r angen i deithio. Mae prosiectau adeiladu diweddar wedi cael eu dylunio er mwyn lleihau eu hól troed carbon a darparu adeiladau a chartrefi cynaliadwy.
- Hyrwyddwyd ac anogwyd staff yn llwyddiannus i **leihau teithio** drwy ddefnyddio fideo-gynadledda, addysgu byw'n iach a defnyddio adnoddau bwyd lleol drwy ddilyn dull gweithredu o'r crud i'r bedd, gan gefnogi dulliau dysgu myfyrwyr drwy ystyried pam a sut rydym yn defnyddio adnoddau
- Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi cyrraedd y rownd derfynol o ran y **Gwobrau Gynau Gwyrdd** am yr ail flwyddyn yn olynol.

- Ymgysylltwyd yn llwyddiannus â phartneriaid allanol er mwyn sicrhau trwy ymyrraeth gynnar bod modd i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wireddu **cyfleoedd ymchwil** a masnach ar gyfer ein cymunedau busnes.,

4.4 Amddiffyn, gwella a diogelu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a hyrwyddo bioamrywiaeth yn y sir

- Datblygwyd prosiect llwybr natur ym Mhwll Dafen i gynnwys **arwyddion â chodau QR ar gyfer y parc, a thrwy hyn bydd rhannau o'r ddol yn cael eu gadael heb eu torri ac yn cael eu rheoli fel dol gwair sych, mae teithiau cerdded i weld ystlumod hefyd wedi cael eu trefnu.**
- Parhawyd i hwyluso **Cynllun Gweithredu Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin**, sy'n dwyn ynghyd yr holl sefydliadau sy'n ymwneud â chadwraeth natur yn Sir Gaerfyrddin.
- Paratowyd astudiaeth i ddarparu sylfaen dystiolaeth o ran y tir, gwerthiannau a gwerthoedd rhent, costau adeiladu a **hyfywedd** datblygu ar gyfer ystod o ddefnydd tir ledled ardal weinyddol Cyngor Sir Gaerfyrddin, er mwyn i'r Cyngor ystyried a fyddai cyflwyno Ardoll yn Sir Gaerfyrddin yn hyfyw.
- Datblygwyd Prosiect **Caeau'r Mynydd Mawr yn Cross Hands**, a ddynodwyd yn un o dair canolfan dwf yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin sy'n cynnwys datblygu safleoedd economaidd strategol a datblygiadau tai, yn unol â Strategaeth Aneddfannau Cynaliadwy.
- Parhawyd i gadw a chynnal cofrestr Tir Comin sy'n cynnwys 120 o diroedd comin a meysydd pentref, ac mae 49 o diroedd comin yn ddiberechnog.

4.5 Datblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy

- Parhawyd i weithredu **Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Betws** ar gyfer prosiectau cymunedol sydd o fudd i wardiau penodol yn Sir Gaerfyrddin. Roedd y prosiectau yn mynd i'r afael â phrif themâu megis hamdden, diwylliant, addysg, iechyd, yr amgylchedd, effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd. Yn ogystal â'r cyllid Mynydd y Betws a fuddsoddwyd, mae'r prosiectau hefyd wedi elwa ar ffrydiau cyllid eraill sydd wedi denu cyllid allanol i'r ardal. Buddsoddwyd cyfanswm o £2,496,771 mewn prosiectau cymunedol yn yr Aman ers 2013, a chaiff y cyfanswm hwn ei ategu gan £895,032 o gyllid Mynydd y Betws a daeth £1,601,739 pellach o ffynonellau cyllid eraill.
- Darparwyd gwasanaeth Rheoli Cyfrif Allweddol penodedig wedi'i deilwra ar gyfer dros 40 o fentrau cymdeithasol drwy'r **Biwro Cymunedol** sy'n darparu siop un stop ar gyfer y Trydydd Sector ac sy'n gallu darparu gwybodaeth gyllido a chymorth i sefydliadau gyflawni eu potensial wrth ddatblygu prosiectau hyfyw a chynaliadwy.
- Darparwyd y rhaglen **Cymunedau am Waith**, gan ddarparu cymorth sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cymunedol i'r rheini sydd eu hangen fwyaf.

4.6 Datblygu dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy

- Parhawyd i ddatblygu cysylltiadau trafnidiaeth sy'n **cefnogi datblygu economaidd a chynaliadwyedd**. Yn ystod 2015/16 dechreuwyd adeiladu ffordd gyswllt gorllewin Caerfyrddin gyda dyddiad targed i gwblhau'r gwaith yn gynnar yn 2017. Cwblhawyd

Cam 1b o Ffordd Gyswilt Economaidd Cross Hands i wella mynediad at y safle Cyflogaeth Strategol ac mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer Cam 2 y cynllun.

- Adeiladwyd llwybrau troed/llwybrau beicio newydd yn y safleoedd canlynol: O Langennech i Ddafen er mwyn hyrwyddo mynediad i safleoedd cyflogaeth, a helaethwyd llwybr camlas Pen-bre drwy Gydwelli er mwyn cefnogi twristiaeth a theithiau hamdden. Rydym hefyd wedi cwblhau cynllun Llwybr Beicio Dyffryn Aman yn Sir Gaerfyrddin ynghyd â'r cynllun o Gwmffrwd i Bibwr-lwyd yng Nghaerfyrddin.
- Sicrhawyd cyllid i ymestyn y galw am wasanaeth bws ar alw **Bwcabus**. Mae Bwcabus yn dal i fynd yn groes i'r duedd o ran y gostyngiad yn y nifer sy'n defnyddio bysiau. Rydym wedi cydweithio â'r gweithredwyr bysiau a Llywodraeth Cymru i ddarparu a chynnal y rhwydwaith.
- Parhawyd i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i **ddatblygu gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus a chymunedol** er mwyn cynorthwyo â'r pwysau ar drafnidiaeth di-argyfwng i gleifion. Cyflwynwyd cynllun peilot i gysylltu'r gwasanaeth Bwcabus i ddarparu teithiau i feddygfeydd; mae ein prosiect SA48 wedi dechrau cyfeirio mwy o deithiau i drafnidiaeth gyhoeddus. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwirfoddoli Brenhinol i ddatblygu'r gwasanaeth Ceir Cefn Gwlad.
- Parhawyd i ddatblygu darpariaeth y **Rhaglen Moderneiddio Addysg**. Yn 2015/16 ail ddyluniwyd ein rhwydwaith cludiant ysgol yn llwyddiannus er mwyn cefnogi ad-drefnu addysg uwchradd yn ardal Dinefwr wrth i gampws newydd Ysgol Bro Dinefwr agor.
- Cafodd ein fflyd ei gostwng dros 8.8% yn ystod y tair blynedd diwethaf, o ganlyniad mae hyn wedi lleihau ein defnydd o danwydd o 7.6% yn 2015/16, gyda'n defnydd cyffredinol o danwydd wedi lleihau o 26% dros y pedair blynedd diwethaf.
- Cafwyd cynnydd o ran ein rhaglen buddsoddi yn y fflyd er mwyn gwella effeithlonrwydd. Bydd y fflyd newydd yn defnyddio'r dechnoleg lleihau allyriadau diweddaraf.
- Aethom ati i adolygu ein strategaeth caffael ar gyfer cerbydau masnachol bach er mwyn sicrhau arbedion refeniw o £120,000 y flwyddyn o refeniw dros y tair blynedd nesaf.

4.7 Sicrhau yr hyrwyddir y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

- Parhawyd i hyrwyddo a datblygu'r ddwy Ganolfan Gymraeg yn y Sir; Y Lle yn Llanelli a'r Atom yng Nghaerfyrddin. Sefydlwyd y ddwy ganolfan drwy gymorth ariannol gan **Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Bwrw Mlaen Llywodraeth Cymru**. Mae'r canolfannau yn gartref i nifer o wasanaethau yn cynnwys caffi cymunedol, swyddfeydd, ystafelloedd ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd a chlybiau ieuenctid.
- Parhawyd i weithio gyda phrosiect **S4C 'Yr Egin'** i helpu i gefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant yn lleol ac yn genedlaethol yn y dyfodol. Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cefnogi hyn a bwriedir cwblhau'r prosiect erbyn 2018.
- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi derbyn ei **Safonau o ran y Gymraeg** fel rhan o fframwaith newydd a gefnogir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Nod y Safonau yw gwella'r gwasanaethau sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg a sicrhau bod yr iaith yn cael ei hyrwyddo yn ein cymunedau.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod?

- Byddwn drwy gyfrwng y Cyngor Sir, yn datblygu a chyhoeddi Strategaeth i hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o Safonau'r Gymraeg. Bydd y strategaeth yn cael ei pharatoi gan Fforwm Strategol Cymraeg y sir.

- Byddwn yn parhau i fonitro cyfran y tai y caniateir ar ddyraniadau fesul haen o hierarchaeth y Cynllun Datblygu Lleol o fewn fframwaith monitro'r cynllun.
- Byddwn yn parhau i fonitro cyfanswm y tai sy'n cael eu caniatáu ar safleoedd a ddyrannwyd ar dir a ddatblygwyd eisoes.
- Byddwn yn parhau i fonitro'r capasiti a ganiateir o ran trydan adnewyddadwy a phrosiectau creu gwres o fewn y Sir (gan MW).
- Byddwn yn parhau i ffeilio'r dangosyddion cynaliadwyedd sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng y system gynllunio.
- Byddwn yn parhau i fonitro gweithrediad Polisi Cynllun Datblygu Lleol SP18: Yr Iaith Gymraeg o fewn fframwaith monitro'r Cynllun ac yn adolygu ein sefyllfa pan fydd diweddariad i bolisi cynllunio cenedlaethol o ganlyniad i'r Ddeddf Gynllunio.
- Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cysylltiadau seilwaith trafnidiaeth strategol er mwyn cefnogi datblygu economaidd, drwy gyflawni'r canlynol:
 - Parhau i adeiladu Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin er mwyn cefnogi datblygiad Yr Egin a hwyluso datblygiad cymysg.
 - Symud ymlaen i Gam 2 Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun yn 2016/17.
 - Dechrau ar y gwaith o wella'r seilwaith priffyrdd yn Rhydaman er mwyn gwella llif y traffig a lleihau tagfeydd.
 - Cwblhau'r llwybr cerdded a beicio rhwng Llangennech a Dafen.
 - Dechrau ar ein Prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Tywi blaenllaw er mwyn gwella cysylltedd ac i annog rhagor o ffyrdd o deithio'n gynaliadwy.
- Byddwn yn parhau i gefnogi darparu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg - ailgynllunio rhwydweithiau er mwyn hwyluso symudiad disgyblion fel y nodir yn ein polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol.
- Byddwn yn anelu at geisio sicrhau bod gan 79% o oedolion dros 60+ gerdyn teithio rhatach.
- Byddwn yn parhau i gaffael mwy o gerbydau sy'n rhad ar danwydd drwy ein rhaglen adnewyddu'r fflyd a lleihau'r fflyd weithredol bresennol o 2% yn ystod y flwyddyn.
- Byddwn yn ail-lansio ein canllaw Travelwise/Workwise i staff er mwyn ceisio sicrhau llai o deithio ymhlith staff.

Astudiaeth Achos:

Mae safle ym Morfa Berwig sy'n eiddo i'r Cyngor wedi cael ei ddynodi yn Warchodfa Natur Leol. Mae'r safle'n agos i'r Bynea a Llwynhendy ac mae trigolion lleol yn defnyddio'r safle i gerdded. Mae'r Cyngor, ar y cyd ag ystod o bartneriaid, wedi rheoli'r safle cadwraeth ers sawl blwyddyn. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o gynefinoedd, gan gynnwys tir llwyd (a fu'n dir diwydiannol), gwlypdiroedd a glaswelltiroedd, a nifer o rywogaethau nodweddiadol gan gynnwys llygod pengrwn y dŵr prin. Eleni rydym wedi rheoli'r cynefinoedd o ran y ffosydd a'r llwybrau, ac yn ystod Wythnos Bioamrywiaeth Cymru cafwyd digwyddiadau i bobl leol, gan gynnwys wal ar gyfer gwenyn lle gwelwyd y gardwenynen lwydfrown brin, a threfnwyd hefyd weithgareddau ar gyfer yr ysgol leol. Yn ogystal â bioamrywiaeth o safon, mae'n safle gwych ar gyfer pobl leol. Mae gan y safle y potensial i fod yn ardal storio a lliniaru llifogydd lleol, a bydd gwaith yn parhau'r gaeaf hwn i wella mynediad ac arwyddion i annog rhagor o bobl leol i ddefnyddio'r safle a'i gynnwys yn rhan o'r llwybrau troed a beicio lleol.



Canlyniad 5: Mae gan Sir Gaerfyrddin economi cryf a mwy llewyrchus

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn, ein nodau bydd:

- Cadw pobl ifanc yn y sir a'u denu i'r sir a sicrhau'r cyflawniadau a'r dyheadau mwyaf posibl iddynt
- Creu swyddi o ansawdd da ar draws y sir trwy ddatblygu a buddsoddi
- Cadw buddsoddiad yn yr economi leol
- Mynd i'r afael â thlodi a'i effaith ar yr economi leol
- Creu economi a gweithlu dwyieithog.

Sut rydym yn gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth?

Rydym wedi parhau i ddarparu mentrau a gynlluniwyd i greu economi mwy cryf a llewyrchus yn 2015/16.

Mae'r Sir wedi parhau i ddenu lefelau sylweddol o fuddsoddiad i ategu'r gwaith o ddatblygu canol ein trefi a safleoedd cyflogaeth strategol allweddol ar draws Sir Gaerfyrddin a darparu cymorth o ran creu swyddi ychwanegol yn Sir drwy ddarparu grantiau, hyfforddiant a chymorth busnes.

O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, bu gostyngiad o 18% yn nifer y dinasyddion yn Sir Gaerfyrddin a oedd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016, o 2,173 i 1,791. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Sir hefyd wedi gweld gostyngiad o 38% yn nifer y Ceiswyr Gwaith rhwng 18 a 24 oed, o 555 i 345, fodd bynnag cafwyd cynnydd yn nifer y Ceiswyr Gwaith rhwng 50 – 64 oed o 1%, o 490 i 495.


Er mwyn gwella mynediad i waith, addysg a hyfforddiant yn y Sir mae Un Sir Gâr yn parhau i gyfuno'r holl gyngor, gwybodaeth, addysg, cyfleoedd gwirfoddol a chyflogaeth, gan wneud bywyd yn llawer haws i drigolion.

Bydd y prif ddangosyddion poblogaeth canlynol yn mesur perfformiad y Sir o fewn y Canlyniad hwn ac mae diweddariad llawn ar gynnydd y dangosyddion hyn ar gael yn Adroddiad Blynnyddol y Dangosyddion Poblogaeth ar gyfer 2015-16:

- Nifer y tai fforddiadwy a ddarperir
- Cyfradd gyflogaeth
- Enillion amser-llawn wythnosol gros cyfartalog
- Incwm blynnyddol canolrifol cartrefi yn y sir
- Canran y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau diweithdra allweddol
- Cyfradd y plant sy'n byw mewn cartrefi di-waith
- Busnesau sy'n dechrau ac yn cau

Byddwn yn edrych ar un o'r dangosyddion poblogaeth hyn – niferoedd cychwyn a therfynu busnes – yn fanylach.

Nifer o fusnesau yn weithredol yn Sir Gâr



Nifer o fusnesau sy'n dechrau a cau yn Sir Gâr



— Newydd — Wedi cau

Ffynhonnell: Ystadegau Gwladol

Roedd 600 o fusnesau newydd yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2015, gostyngiad o -5% ers 2014, ac eto mae hyn yn 13% o gynnydd ers 2008, gyda Chymru yn gweld cynnydd o 23% o 2008 i 2014.

Mae nifer y busnesau a ddaeth i ben yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2014 wedi gostwng -5% i 490 o gymharu â 515 yn 2013, o gymharu â chynnydd o 3% yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod.

Cafwyd cynnydd o 1.2% yn nifer y busnesau gweithredol yn Sir Gaerfyrddin yn 2014, sef 5,845 o gymharu â 5,775 yn 2013, a chafwyd gostyngiad o -6.4% yn nifer y busnesau gweithredol yng Nghymru, i 92,445.

Roedd Adolygiad Economaidd Medi 2015 wedi tynnu sylw at gryfder yr adferiad yn y gyfradd cyflogaeth yn dilyn y dirywiad yn yr economi. Wrth i'r farchnad lafur ddechrau adfer yn 2012, roedd symud o swydd i swydd yn arwydd o'r hyder yn farchnad lafur – wedi cynyddu'n gyflym ac mae'n bosibl bod y gwelliant wedi rhoi hyder yr oedd ei angen ar weithwyr i symud rhwng cyflogwyr a hefyd yr hyder i ddechrau ar fusnesau newydd.

Sut y gwnaethom berfformio yn ystod 2015/16?

5.1 Cadw pobl ifanc yn y sir a'u denu i'r sir a sicrhau'r cyflawniadau a'r dyheadau mwyaf posibl iddynt

- Darparwyd mewn partneriaeth â Chyngor Sir Gaerfyrddin, **Gyrfa Cymru**, Coleg Sir Gâr a'r Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant nifer o **ddigwyddiadau allweddol** ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch ac Addysg bellach, gan gefnogi entrepreneuriaeth a sgiliau a chyflogadwyedd.
- Roedd chwech o'n hysgolion uwchradd wedi cymryd rhan yn **Dreigiau Busnes Ifanc Bae Abertawe**. Y ddau enillydd yn rownd Sir Gaerfyrddin o Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth ac Ysgol Sant Ioan Llwyd. Cafodd Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth wobwr 'Canmoliaeth Arbennig'.
- Datblygwyd her fenter yn llwyddiannus a gafodd ei chymeradwyo i ysgolion uwchradd ei chyflawni fel rhan o fodiwl Menter **Bagloriaeth Cymru** i greu a datblygu cynnyrch neu wasanaeth arloesol.
- Parhawyd i weithio gydag ysgolion lleol sy'n cymryd rhan yn ein **rhaglen 'Byd Gwaith'**.
- Darparwyd cyfleoedd mewn partneriaeth ag S4C a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i ymgysylltu ag ysgolion lleol i dynnu sylw at gyfleoedd gyrfa posibl a fyddai'n dod yn sgil y pencadlys newydd – Canolfan Yr Egin.
- Cynhaliwyd digwyddiad 'Byd Gwaith' mewn partneriaeth â chwmni adeiladu lleol sef Morganstone, lle bu 40 o ddisgyblion Blwyddyn 10 o 5 ysgol yng nglwstwr Llanelli yn bresennol.
- Cefnogwyd 95 o bobl ifanc drwy gyfrwng y Mentor Ieuencid Ffyniannus a'r Tîm Esgyn.

5.2 Creu swyddi o ansawdd da ar draws y sir trwy ddatblygu a buddsoddi

- Mabwysiadwyd **Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe** fel polisi adfywio economaidd cyffredinol y Cyngor. Mae'r Strategaeth hon yn darparu'r fframwaith ar gyfer trawsnewidiad economaidd economi Dinas-Ranbarth Bae Abertawe hyd at 2030.
- Cwblhawyd yn llwyddiannus y rhaglen **Datblygu Eiddo** chwe blynedd, gyda 15 o brosiectau'n cael cyllid i ddarparu swyddfa newydd ac adeiladau diwydiannol ledled ardal De-orllewin Cymru. Cwblhawyd y prosiect i sicrhau seilwaith ar gyfer **saflle Cyflogaeth Strategol** newydd yn Cross Hands ym mis Mehefin 2015. Bydd y prosiect a ddatblygodd 8.5ha o dir at ddefnydd cyflogaeth yn gartref i 700 o swyddi a bydd yn sicrhau buddsoddiad i'r sir o £2.09 miliwn yn 2015/16.
- Datblygwyd cysyniad i ddarparu prosiect trawsnewidiol '**Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd**' mewn partneriaeth â Chyngor Sir Gaerfyrddin, Byrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Abertawe Bro Morgannwg, gan sicrhau gwell iechyd, sgiliau a chanlyniadau economaidd.

5.3 Cadw buddsoddiad yn yr economi leol

- Datblygwyd y **Cynllun Rheoli Cyrchfannau Twristiaeth** i ddarparu dull cydgysylltiedig, ar draws y sectorau i wella ansawdd profiad ymwelwyr a chynyddu niferoedd yr ymwelwyr yn y sector twristiaeth sydd werth £342 miliwn y flwyddyn yn ystadegol i'r Sir.
- Cefnogwyd 145 o fusnesau drwy gynghori busnesau twristiaeth a lletygarwch ynghylch Cynlluniau cymorth grantiau'r llywodraeth, arwyddion twristiaeth brown, cyfleoedd hyrwyddo ac arweiniad un ag un ar amrywiaeth o faterion o ddydd i ddydd.

- Parhawyd i weithio'n agos gyda **Fforwm Adfywio Tref Caerfyrddin** i ddatblygu a darparu prif gynllun ar gyfer adfywio Caerfyrddin yn economaidd ac ardaloedd economaidd cysylltiedig rhwng 2014 a 2030.
- Darparwyd rhaglen **Adref** gan gynnwys prosiectau Cronfa Datblygu Eiddo a Grantiau Gwella Trefi, gan arwain at y canlyniadau llwyddiannus canlynol: Crëwyd 116 o swyddi Cafodd 31,807 troedfedd sgwâr o eiddo ei greu/gwella a buddsoddwyd £1.3 miliwn yn y sir yn 2015/16.
- Parhawyd i adfywio canol tref Llanelli a datblygu prosiect **Stryd Cyfleoedd** i adfywio eiddo ar hyd Stryd Stepney mewn cydweithrediad â chyllid Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru.
- Parhawyd i ddarparu'r Cynllun Ariannu **Partneriaeth Canol y Dref Llywodraeth Cymru** a ddechreuwyd yn 2014.
- Sicrhawyd £4.5 miliwn o gymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau ym Mhentywyn, a fydd yn un o'r **prosiectau twristiaeth fwyaf** yng Nghymru dros y ddwy flynedd nesaf.
- Parhawyd i gynorthwyo Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant o ran paratoi gwybodaeth am gais i Lywodraeth Cymru i nodi cyllid llenwi bwlch ar gyfer adleoli datblygiad **Canolfan yr Egin/S4C**.
- Aethpwyd ati i adeiladu adeilad masnachol a digwyddiadau a ariannwyd gan Gymunedau Arfordirol ar safle'r **Amgueddfa Cyflymder**. Mae hwn ar fin cael ei gwblhau er gwaethaf y tywydd anffafriol. Mae'r adeilad yn cynnwys pedair uned fasnachol ar y llawr gwaelod, â thoiledau cyhoeddus ac ardal ddigwyddiadau/bwyty ar y llawr uchaf.
- Cafwyd cymeradwyaeth ffurfiol gan y **Grŵp Gweithredu Lleol** gyda chyllideb o dros £3m miliwn o fuddsoddiad gan y Cynllun Datblygu Gwledig a fydd ar gael i gefnogi syniadau arloesol a ffyrdd newydd o weithio yn y Sir Gaerfyrddin wledig yn ystod cyfnod y rhaglen (2014-2020).
- Cwblhawyd yn llwyddiannus y **prosiect partneriaeth** Gweithffyrdd a ariannwyd gan gyllid Ewropeaidd (sgiliau cyflogaeth) a llwyddwyd i sicrhau rhagor o gyllid Ewropeaidd i gefnogi rownd nesaf y prosiect **Gweithffyrdd+** yn y sir hyd nes 2020.
- Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi ennill sawl gwobr gan gynnwys Gwobr Aur Cymdeithas y Pridd.
- Darparwyd siop un stop ar gyfer y trydydd sector drwy'r **Biwro Cymunedol**, gan gynorthwyo cymunedau i ddod o hyd i wybodaeth ac arweiniad ac ymdrin â 500 o ymholiadau.
- Darparwyd cymorth parhaus gan y Cyngor i greu **swyddi amser llawn ychwanegol** drwy ddarparu benthyciadau, grantiau a chymorth busnes ar gyfer cwmnïau rheoli cyfrifon yn y sir.

5.4 Mynd i'r afael â thlodi a'i effaith ar yr economi leol

- Aethpwyd ati i weithio gyda 3380 o drigolion a oedd wedi'u targedu ledled 18 o raglenni **Ffyniant, Dysgu ac Iechyd** a phedair o raglenni mewn ysgolion.
- Trefnwyd dros 50 o weithgareddau Cynllun Cynnwys y Gymuned a oedd yn ymgysylltu â thros 2500 o drigolion gan roi cyfle iddynt roi cynnig ar **sesiynau blas ar weithgareddau Cymunedau yn Gyntaf**.

- Cyflogaeth sicr i 105 o drigolion drwy gymorth y **rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf** a chymorth i 668 o gyfranogwyr eraill i ddatblygu sgiliau cyflogaeth. Dywedodd 96% o'r cyfranogwyr eu bod yn fwy positif ac yn fwy hyderus ynghylch chwilio am waith.
- Darparwyd cymorth TG i 200 o drigolion, cafodd 292 o bobl gyngor ariannol, dangoswyd iddynt sut i gyllidebu, ymgeisio am fudd-daliadau a rhoddwyd gwybodaeth am Gredyd Cynhwysol iddynt, ac mae 261 o oedolion wedi ennill cymwysterau achrededig sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.
- Cefnogwyd 96 o oedolion o aelwydydd heb waith gan y Tîm Esgyn trwy ddarparu mentora cyflogaeth dwys un i un. Cwblhaodd 76 o bobl hyfforddiant galwedigaethol, cwblhaodd 47 leoliad profiad gwaith ac mae 39 wedi sicrhau cyflogaeth.
- Sicrhawyd cyllid am raglen ychwanegol sef 'Cymunedau am Waith' sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, gan weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau i weithio'n ddwys gyda thrigolion 16+ oed sy'n anweithgar yn economaidd ac yn ddi-waith yn y tymor hir er mwyn rhoi cymorth iddynt gael cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg.
- Darparwyd **cymorth cyllidebu personol** i helpu cwsmeriaid i nodi'r meysydd y dylid eu cyllidebu'n briodol.
- Creodd y Ganolfan Byd Gwaith 20 o **gyfleoedd profiad gwaith mewnol** i helpu'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur i ddychwelyd i'r gwaith. Yn ogystal crëwyd 140 o gyfleoedd allanol am Brofiad Gwaith.
- Llwyddwyd i ennill tendr dwy flynedd gan y Cynllun Datblygu Gwledig gwerth £90,000 ar gyfer manteisio ar Dechnoleg Ddigidol yn Sir Gaerfyrddin wledig.
- Lansiodd gwefan **rhaglen hyfforddi 'Money Sense'** sy'n galluogi'r 106 o ysgolion cynradd ar draws Sir Gaerfyrddin i ddarparu gwersi cynhwysiant ariannol penodedig i'w disgyblion.
-

5.5 Creu economi a gweithlu dwyieithog

- Parhawyd i ddarparu'r rhaglen sgiliau Pobl Ifanc, a ddarparwyd gan Fenter Gorllewin Sir Gâr, gan weithio gyda chyflogwyr lleol i ddarparu cyfleoedd gwaith gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg,
- Llwyddodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ddarparu gwersi Cymraeg mewnol i staff a myfyrwyr er mwyn helpu i gefnogi'r Gymraeg.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod?

- Byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu'r prosiectau strategol allweddol fel y nodwyd yn ein Strategaeth Drawsnewidiol.
- Byddwn yn chwilio am gyllid allanol i wireddu ein dyheadau ledled y sir.
- Byddwn yn darparu rhaglen o fentrau busnes ac ieuenctid mewn partneriaeth â busnesau lleol
- Byddwn yn parhau i ddarparu'r bartneriaeth Un Sir Gâr i hyrwyddo cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer pobl ifanc a cheiswyr gwaith yn y sir.
- Byddwn yn arwain ac yn rheoli'r dyraniad o £3m gan LEADER ar gyfer cefn gwlad Sir Gaerfyrddin
- Byddwn yn datblygu'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

- Byddwn yn parhau i chwarae rôl lawn fel rhan o Fwrdd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe i sicrhau ein bod yn denu'r swm uchaf posibl o fuddsoddiad a swyddi i Sir Gaerfyrddin.
- Byddwn yn parhau i ddarparu'r rhaglen *Cymunedau yn Gyntaf* fel cyfle i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, cyrhaeddiad addysgol a sgiliau ac anghydraddoldebau iechyd yn ein hardaloedd o amddifadedd mwyaf.
- Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd o ran targed monitro'r Cynllun Datblygu Lleol sef bod holl safleoedd cyflogaeth strategol y Cynllun yn barod ar unwaith neu'n barod yn y tymor byr erbyn 2018.
- Byddwn yn parhau i sicrhau'r swyddi hynny a grëwyd drwy'r caniatâd cynllunio a roddwyd ac adrodd amdanynt i'r Tîm Adfywio yn gyfnodol.
- Byddwn yn parhau i ystyried cynnydd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol o fewn y Sir, gan gynnwys y Rhestr Taliadau Drafft Cychwynnol.

Astudiaeth Achos

Cronfa Budd Cymunedol Mynydd y Betws

Mae Eglwys yr Holl Saint yn adeilad rhestredig eiconig Gradd II yng nghanol Rhydaman. Mae'r Biwro Cymunedol wedi cefnogi Tîm y Prosiect ers mis Gorffennaf 2012 ar bob agwedd o ddatblygu a chyflawni'r prosiect dros ddwy flynedd er mwyn sicrhau'r cyfalaf o £500,000 sy'n ofynnol i ymgymryd â'r trawsnewidiad. Dyfarnodd Cronfa Budd Cymunedol Mynydd y Betws £50,000 i'r prosiect.

Daeth y cyfraniadau o Gronfa Gydweithredu Cyngor Sir Caerfyrddin, WREN, CADW, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Corff Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru, CWM Environmental a Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwelliannau ffisegol yn cynnwys gwaith adfer i dwr yr eglwys, ailweirio trydanol er mwyn cydymffurfio â rheoliadau lechyd a Diogelwch, system wresogi sy'n gydnaws â'r amgylchedd, creu lle hyblyg sy'n addas ar gyfer defnydd cymunedol amrywiol a chyfleusterau newydd addas.

